

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

75/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

31/01/2024

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 a Data Blynyddoedd Cyfunol 2021-23 Adroddiad Technegol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-437-3

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 a Data Blynyddoedd Cyfunol 2021-23¹

Adroddiad Technegol

Hanes fersiynau:

- 11/07/2023 Cyhoeddi fersiwn 1 sef 'Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 Adroddiad Technegol'
- 26/01/2024 Mae fersiwn 2 wedi'i diwygio i gynnwys trosolwg o ddull cynhyrchu set ddata sy'n cyfuno data 2021-22 â data 2022-23, yn ogystal â data o ran cyfraddau canlyniadau ac ymateb ar gyfer y set ddata gyfun. Mae'r fersiwn hon hefyd yn cynnwys diwygio isafswm meintiau sampl effeithiol mewn rhai awdurdodau lleol. Nid yw'r diwygio hwn yn effeithio ar ganlyniadau'r arolwg.

Awduron:

Sarah Jenkins, Nick Forbes, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Barn yr awduron a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Chris McGowan

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: arolygon@llyw.cymru

¹ 26 Ionawr 2024: diwygio i gynnwys adran ar ddata blynyddoedd cyfun ar gyfer 2021-2023

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg	7
	Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23	7
	Strwythur yr adroddiad	9
2.	Samplu	10
	Dyluniad y sampl	10
	Dewis cyfeiriadau (gan gynnwys sampl wrth gefn)	12
	Trefnu'r sampl yn sypiau a'u dyrannu	14
	Dewis anheddau, cartrefi ac unigolion	15
3.	Cynnwys a datblygiad yr holiadur	16
	Trosolwg o'r holiadur	16
	Cynnwys a datblygiad yr holiadur	16
	Rhaglennu a phrofi'r holiadur	17
	Cyfieithu i'r Gymraeg	19
	Amseriadau cyfweliadau	20
	Newidiadau i sgript yr holiadur Blaise	23
	Newidiadau i'r ffracsïynau is-samplu	24
4.	Gwaith maes	26
	Recriwtio cyfwelwyr	26
	Briffio cyfwelwyr	27
	Goruchwyliaeth a rheoli ansawdd	28
	Dyddiadau gwaith maes, rheoli a gweithdrefnau	28
	Dogfennau gwaith maes	30
	Tudalennau gwe am yr arolwg	31
	Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill	32
	Cyfweliadau dros y ffôn â chymorth a chyfweliadau wyneb yn wyneb	33
	Y broses o gysylltu â chyfeiriad a samplwyd	34
	Yr arolwg ar-lein	36
	Canlyniadau samplau	37
	Cyfweliadau dros y ffôn a gynhaliwyd	40

Camau i unioni'r ymateb isel	42
Arolygon ar-lein a gyflawnwyd.....	42
Defnyddio'r porth ar-lein yn Gymraeg.....	44
5. Prosesu ac allbynnau data	45
Troï achosion cyfweiliadau yn set ddata.....	45
Codio a golygu data	46
Newidynnau deilliedig.....	46
Allbynnau data.....	47
Argaeledd data	48
6. Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi	48
Pwysoliadau dyluniad.....	49
Graddnodi pwysoliadau	50
Effeithiau a ffactorau dylunio	56
7. Blynyddoedd cyfunol 2021-2023 ²	63
Cyfuno setiau data	63
Maint y sampl a chanlyniadau	63
Cyfweiliadau dros y ffôn a gynhaliwyd	67
Pwysoli	68
8. Atodiadau	70
Atodiad A: Grid Kish	71
Atodiad B: Manyleb is-samplu	72
Atodiad C: Amseriadau'r arolwg	73
Atodiad D: Llythyr ymlaen llaw Llywodraeth Cymru Ebrill 2022 – Ionawr 2023	75
Atodiad E: Llythyr ymlaen llaw Llywodraeth Cymru Chwefror 2023 – Mawrth 2023.....	77
Atodiad F: Taflen diben	79
Atodiad G: Cerdyn post cyflwyno cyfwelydd A5	80
Atodiad H: Cerdyn 'Cnocio i Wthio'/Galw heibio heddiw	81
Atodiad I: Cerdyn apwyntiad.....	83
Atodiad J: Llythyr annog.....	84

² 26 Ionawr 2024: Adran 7: Ychwanegu data blynyddoedd cyfun ar gyfer 2021-2023

Atodiad K: Llythyr ailystyried	86
Atodiad L: Taflen llinell gymorth	88
Atodiad M: Newidynnau Deilliedig ar gyfer y Set Ddata Derfynol 2022-23.....	90
Atodiad N: Pwysoliadau a gynhyrchwyd ar gyfer data terfynol 2022-23.....	101
Atodiad O: Rhestr o bynciau ar gyfer set ddata gyfunol 2021-23	103

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Nifer y cyfeiriadau a gafodd eu cynnwys yn y brif sampl fesul awdurdod lleol	14
Tabl 2.2 Cywirdeb y dull dewis yn seiliedig ar y pen-blwydd nesaf.....	16
Tabl 3.1: Newidiadau is-samplu a wnaed drwy gydol blwyddyn arolwg 2022-23.....	25
Tabl 4.1: Nifer y cyfwelwyr yn ôl misoedd yr arolwg*	27
Tabl 4.2: Deunyddiau'r arolwg	30
Tabl 4.3: Iaith y cyfweliad.....	33
Tabl 4.4: Canlyniadau'r sampl i'r holiadur dros y ffôn ar lefel genedlaethol	37
Tabl 4.5: Cyfraddau canlyniad y sampl a ddyrannwyd ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn ar lefel awdurdod lleol.....	40
Tabl 4.6: Cyfweliadau dros y ffôn a gynhaliwyd fesul chwarter	40
Tabl 4.7: Cyfradd ymateb a gyflawnwyd ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn â chyfeiriadau cymwys yn ôl awdurdod lleol (yn nhrefn y gyfradd ymateb)	41
Tabl 4.8 Nifer yr arolygon ar-lein llawn a rhannol fesul awdurdod lleol	43
Tabl 4.9 Nifer y diwrnodau rhwng cwblhau'r cyfweliad dros y ffôn a'r arolwg ar-lein.....	44
Tabl 6.1: Newidynnau a ddefnyddiwyd i raddnodi'r pwysoliadau	52
Tabl 6.2: Poblogaeth breswyl ragamcanol 2021 yn ôl oedran a rhyw	54
Tabl 6.3: Poblogaeth breswyl ragamcanol 2021 yn ôl oedran ac awdurdod lleol.....	54
Tabl 6.4: Amcangyfrifon rhagamcanol o gyfansoddiad cartrefi 2021	56
Tabl 6.5: Effeithiau dylunio a meintiau sampl effeithiol	57
Tabl 6.6: Effeithiau dylunio a ffactorau dylunio ar gyfer amrywiaeth o amcangyfrifon cyfweliad dros y ffôn 2022-23.....	58
Tabl 6.7: Effeithiau dylunio a ffactorau dylunio ar gyfer amrywiaeth o amcangyfrifon arolwg ar-lein 2022-23	61
Tabl 7.1: Nifer y cyfeiriadau a gafodd eu cynnwys mewn samplau fesul awdurdod lleol 2021-23.....	64
Tabl 7.2: Canlyniadau'r sampl i'r holiadur dros y ffôn ar lefel genedlaethol 2021-23	64

Tabl 7.3: Cyfraddau canlyniad y sampl a ddyrannwyd ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn ar lefel awdurdod lleol 2021-23	67
Tabl 7.4: Iaith y cyfweliad 2021-23.....	67
Tabl 7.5: Cyfradd ymateb a gyflawnwyd ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn â chyfeiriadau cymwys yn ôl awdurdod lleol 2021-23 (yn nhrefn y gyfradd ymateb)	68

Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1: Hyd cyfweliadau dros y ffôn ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau	20
Ffigur 3.2: Hyd holiaduron ar-lein ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau	21
Ffigur 3.3: Dosbarthiad hyd cyfweliadau dros y ffôn mewn munudau	22
Ffigur 3.4: Dosbarthiad hyd arolygon ar-lein mewn munudau.....	23

Geirfa

Term	Diffiniad
ALI	Awdurdod lleol
Arolwg	Arolwg Cenedlaethol Cymru
Cenedlaethol	
Blaise	Statistics Netherland Blaise Enterprise 4.8
CATI	Cyfweliad dros y ffôn â chymorth cyfrifiadur
CAWI	Cyfweliad dros y we â chymorth cyfrifiadur
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
PAF	Ffeil Cyfeiriad Cod Post y Post Brenhinol
SPSS	Pecyn Ystadegol - IBM SPSS Statistics
Y SYG	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

1. Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg

1.1 Arolwg a gaiff ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru yw'r Arolwg Cenedlaethol ac, ar hyn o bryd, caiff ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG). Am y saith mlynedd diwethaf, mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi cynnwys cwestiynau arolwg gan dri o'r cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru).

Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23

1.2 Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi newid yn sylweddol ers 2020, gan newid o'i gynnal wyneb yn wyneb i'w gynnal dros y ffôn, newid y dulliau o ddethol y person yn y cartref, cynnal treial ar-lein a chyflwyno'r arolwg ar-lein i'r sampl gyfan.

1.3 Roedd seithfed flwyddyn yr Arolwg Cenedlaethol, a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG), yn rhedeg rhwng dechrau mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2023. Roedd Arolwg Cenedlaethol 2022-23 yn cynnwys cynnal cyfweiliadau dros y ffôn â phobl 16 oed a throsodd yn seiliedig ar sampl o gyfeiriadau preswyl ledled Cymru a ddewiswyd ar hap. Ar ôl y cyfweiliad dros y ffôn, cwblhaodd yr ymatebwyr yr arolwg ar-lein.

1.4 Cynhaliwyd y cyfweiliadau dros y ffôn gan Gyfwelwyr Maes y SYG. Hyd y cyfweiliad dros y ffôn ar gyfartaledd (cymedr) oedd 31.3 munud (canolrif = 29.4 munud).

1.5 Hyd yr arolwg ar-lein ar gyfartaledd (cymedr) oedd 8.7 munud (canolrif = 7.5 munud).

1.6 Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys dros 50 o brif fodiwlau. Roedd y rhain wedi'u dylunio i gwmpasu'r amrywiaeth o bynciau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi. Cafodd rhai pynciau eu his-samplu a oedd yn golygu bod modd casglu amcangyfrifon cadarn ar lefel genedlaethol o hyd ond gan ddefnyddio amser yr arolwg mewn ffordd effeithlon. Roedd y pynciau yn cynnwys:

- y defnydd o'r Gymraeg a sut y caiff ei throsglwyddo
- defnydd o'r rhyngrwyd
- cyflogaeth, addysg a gweithio o bell
- teithio llesol
- digwyddiadau celfyddydol (e.e. presenoldeb, cyfranogiad)
- treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau
- barn am newid yn yr hinsawdd

- risg llifogydd a bioamrywiaeth
- etholiadau cyngor lleol
- deiliadaeth a llety
- amddifadedd materol cartrefi, amddifadedd materol plant
- tlodi bwyd a chyngor ar dlodi
- chwarae plant (holwyd rhieni a'r rhai nad ydynt yn rhieni)
- ysgolion – boddhad ac anghenion dysgu ychwanegol
- gofal plant
- gwasanaethau gofal cymdeithasol (gofalwyr, boddhad)
- tlodi bwyd a chyngor ar dlodi
- llesiant ac unigrwydd
- iechyd (e.e. deiet, yfed alcohol, smygu, gweithgarwch corfforol, beichiogrwydd, mynegai màs y corff, salwch hirdymor)
- gweithgareddau chwaraeon (e.e. cyfranogiad, galw)
- meddygon teulu ac ysbytai
- apwyntiadau deintyddol
- hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol

1.7 Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys saith prif fodiwl. Roedd y pynciau yn cynnwys:

- gwasanaethau a chyfleusterau lleol
- ymddygiadau mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd
- ailgylchu (awdurdod lleol, atgyweirio ac aildddefnyddio)
- Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh (WEMWBS)
- cosbi plant yn gorfforol
- gamblo
- gwirfoddoli

1.8 Gellir gweld yr union gwestiynau naill ai yn holiadur 2022-23 neu mewn chwiliwr cwestiynau rhyngweithiol. Gellir dod o hyd i'r ddau yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru: holiaduron | LLYW.CYMRU](#).

1.9 Roedd yn rhaid i'r ymatebwyr gwblhau'r cyfweiliad dros y ffôn a'r arolwg ar-lein er mwyn cael taleb siopa gwerth £15 i 'ddiolch' iddynt am gymryd rhan yn yr arolwg.

1.10 Cynhaliwyd [arolwg peilot bach](#) ym mis Ionawr 2022 i brofi holiadur 2022-23, deunyddiau diwygiedig yr arolwg a'r daenlen a ddiweddarwyd ar gyfer mynd ar

drywydd ymatebwyr, ac i gasglu adborth cyfwelwyr a darparu gwybodaeth am hyd y cyfweliad.

- 1.11 Roedd holiadur yr arolwg a'r holl ddeunyddiau ategol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn (yr arolwg peilot a'r prif arolwg), gyda chyfweliadau yn cael eu cynnig hefyd mewn ieithoedd eraill gyda chymorth cyfieithydd yn ôl yr angen.
- 1.12 Roedd cyfanswm o 32,550 o gyfeiriadau yn y sampl a ddewiswyd a ddefnyddiwyd drwy gydol 2022-23. Roedd hyn yn wahanol i faint gwreiddiol y sampl a dynnwyd gan fod maint y sampl a ddewiswyd bob mis yn cael ei fonitro a'i addasu drwy'r flwyddyn er mwyn ceisio sicrhau'r cyfraddau ymateb gofynnol.
- 1.13 Tynnwyd sampl o 32,357 o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post defnyddwyr bach Swyddfa'r Post (PAF) ar gyfer blwyddyn arolwg 2022-23 yn y lle cyntaf. Roedd y sampl wedi'i haenu ar sail y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (ALLau) gydag ymdrech yr arolwg yn gymesur yn fras â maint poblogaeth ALLau gyda gorsamplu er mwyn sicrhau isafswm maint sampl effeithiol o 250 mewn ALLau llai o faint a 750 ym Mhowys. Dewiswyd sampl wrth gefn yn yr un ffordd. Lle roedd angen addasu'r sampl wreiddiol, roedd y rhain naill ai'n cael eu tynnu'n systematig o ALL mewn mis penodol, neu'n cael eu hychwanegu'n systematig at ALL mewn mis penodol gan ddefnyddio'r sampl wrth gefn.
- 1.14 Rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2023, cynhaliwyd 11,140 o gyfweliadau dros y ffôn (llawn a rhannol), nad oedd yn cyrraedd y targed o 12,000 ar gyfer blwyddyn lawn yr arolwg, a chwblhawyd 9,427 o arolygon ar-lein (llawn a rhannol). Y gyfradd ymateb ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn oedd 38.3%, a 32.4% ar gyfer arolygon ar-lein. Y gyfradd gadael cyn gorffen gyffredinol (gan gynnwys cyfweliadau rhannol) oedd 15.4%.
- 1.15 Roedd nifer y cyfweliadau dros y ffôn a gynhaliwyd ym mhob ALL rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 yn amrywio o 319 yn Sir Ddinbych a Merthyr Tudful i 1,100 ym Mhowys.

Strwythur yr adroddiad

- 1.16 Bwriedir i'r adroddiad hwn roi disgrifiad clir a dealladwy o'r ffordd yr aethpwyd ati i gasglu a phrosesu'r data.

1.17 Ar ôl y bennod gyflwyno hon, mae'r adroddiad wedi'i rannu'n bum pennod arall:

- Mae Pennod 2 ('Samplu') yn disgrifio'r broses o ddewis cyfeiriadau ac unigolion ar gyfer yr arolwg.
- Mae Pennod 3 ('Cynnwys a datblygiad yr holiadur') yn ystyried y broses o ddatblygu cwestiynau ar gyfer meysydd pwnc i'w cynnwys yn yr arolwg, a'r gwaith datblygu a phrofi a gynhaliwyd ar holiadur yr arolwg a'i broses weithredu gyfrifiadurol.
- Mae Pennod 4 ('Gwaith maes') yn cwmpasu'r broses o baratoi cyfwelwyr ar gyfer gwaith maes, gweithdrefnau gwaith maes, niferoedd cyfweliadau, cyfraddau ymateb, ac amseriadau cyfweliadau.
- Mae Pennod 5 ('Prosesu data ac allbynnau') yn rhoi trosolwg o'r broses o baratoi'r setiau data a'u pennu'n derfynol.
- Mae Pennod 6 ('Pwysoli a diffyg ymateb') yn disgrifio'r broses bwysoli.
- Mae Pennod 7 ('Blynyddoedd cyfunol 2021-2023') yn rhoi trosolwg o'r data blynyddoedd cyfunol.

2. Samplu

Dyluniad y sampl

- 2.1 Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i ddylunio i fod yn gynrychioliadol o'r holl oedolion 16 oed neu drosodd sy'n byw mewn cartrefi preifat yng Nghymru. Felly, mae'r sampl flynyddol wedi'i sefydlu fel hapddewisiad un cam wedi'i haenu o gyfeiriadau ledled Cymru.
- 2.2 Daeth y sampl o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol³, lle cafodd pob cyfeiriad preswyl a math o annedd eu cynnwys yn y broses dewis sampl cyhyd ag yr oeddent wedi'u rhestru fel cyfeiriadau unigol⁴. Os oeddent wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau unigol ar y PAF, cafodd cartrefi parciau preswyl ac anheddau eraill eu cynnwys yn y ffrâm samplu.
- 2.3 Yna, cafodd cyfeiriadau wedi'u samplu eu clystyru'n chwarterol er mwyn sicrhau bod y gwaith maes yn cael ei ddyrannu'n effeithiol.

³ Ceir rhagor o wybodaeth am ganolfan trwyddedu PAF ar [wefan y Post Brenhinol](#).

⁴ Mae cyfeiriadau preswyl yn golygu cartrefi preifat ledled Cymru. Nid ydynt yn cynnwys llety sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, neuaddau preswyl, carchardai, gwestai a llety gwely a brecwast, a chanolfannau'r fyddin). Ni chaiff pobl mewn llety sefydliadol eu cynnwys mewn arolygon cymdeithasol fel arfer.

- 2.4 Cafodd y sampl ei haenu yn ôl ALI gan ddefnyddio dyraniad gyda'r nod o sicrhau isafswm maint sampl effeithiol ym mhob ALI, yn seiliedig ar y gyfradd ymateb amcangyfrifedig, er mwyn rhoi amcangyfrifon digon manwl ar lefelau daearyddol gwahanol⁵. Yr isafswm maint sampl effeithiol oedd 250 ym mhob ALI heblaw Powys (isafswm maint sampl effeithiol o 800), Sir y Fflint a Chasnewydd (400 yr un), Merthyr Tudful a Cheredigion (300 yr un) ac Ynys Môn (275). Ystyriwyd dwysedd a maint y boblogaeth ar lefel ALI wrth dynnu'r sampl, ond cafodd rhai ardaloedd (e.e. ALLau bach) eu gorsamplu yn unol â maint y boblogaeth er mwyn sicrhau samplau a oedd yn ddigon mawr i roi amcangyfrifon cadarn.(r)⁶
- 2.5 Dewiswyd sampl wrth gefn, o'r un maint â'r brif sampl, gan ddefnyddio'r fethodoleg samplu hefyd.
- 2.6 Gwnaed gwaith samplu pellach o fewn yr holiadur pan gafodd rhai modiwlau yn yr holiadur eu gofyn i is-sampl o ymatebwyr yn unig.
- 2.7 Cafodd y sampl ei dyrannu ar y dechrau drwy ddefnyddio dyraniad cymesur, sy'n golygu bod maint y sampl ym mhob ALI yn gymesur â maint yn seiliedig ar nifer y cyfeiriadau yn yr ALI hwnnw. Er mwyn sicrhau'r isafswm maint sampl effeithiol ym mhob ALI, yna cafodd y dyraniad ei addasu fel a ganlyn:
- a) Nodwyd yr ALLau lle roedd yr isafswm maint sampl effeithiol yn annhebygol o gael ei sicrhau.
 - b) Yn yr ALLau hynny, pennwyd maint y sampl i'r isafswm hwn a dyrannwyd gweddill y sampl â thebygolrwydd a oedd yn gymesur â maint.
 - c) Cynhaliwyd cam (a) a (b) yn iteraidd nes bod yr isafswm maint sampl effeithiol wedi'i sicrhau ar gyfer pob ALI.
- 2.8 O fewn pob cartref a samplwyd, ceisiwyd cynnal cyfweliad unigol ag un oedolyn 16 oed neu drosodd. Lle roedd cartref yn cynnwys mwy nag un oedolyn (16 oed a throsodd), dewiswyd un oedolyn ar hap.

⁵ Mae'n rhaid ystyried natur gymhleth dyluniad y sampl wrth gyfrifo'r amrediad posibl o wallau samplu. Caiff effaith y dyluniad ei chynrychioli'n aml gan ystadegyn 'effaith y dyluniad'. Er enghraifft, mae effaith dyluniad o 1.3 yn nodi y dylai maint y sampl wirioneddol gael ei rannu ag 1.3 er mwyn cael maint sampl ystadegol effeithiol. Maint sampl ystadegol effeithiol yw maint sampl ar hap syml cyfatebol a fyddai'n arwain at wallau samplu o'r un maint. Mae effaith y dyluniad yn amrywio ar gyfer pob mesur yn yr arolwg.

⁶ 26 Ionawr 2024: diwygio isafswm meintiau sampl effeithiol mewn rhai awdurdodau lleol (yn flaenorol, nodwyd 750 ar gyfer Powys a 250 yr un ar gyfer awdurdodau lleol eraill).

Dewis cyfeiriadau (gan gynnwys sampl wrth gefn)

- 2.9 Cyn pandemig COVID-19, roedd maint y sampl flynyddol tua 24,900. Fodd bynnag, arweiniodd y newid o gynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb i'w cynnal dros y ffôn yn ystod y pandemig ac wedi hynny at ostyngiad mewn cyfraddau ymateb. Gan ddefnyddio'r data diweddaraf am gyfraddau ymateb tebygol, dewiswyd sampl o 32,357 ar gyfer y brif sampl, wedi'i haenu yn ôl ALI (gweler yr adran flaenorol).
- 2.10 Er mwyn dewis cyfeiriadau i'w cynnwys yn yr arolwg, trefnwyd y PAF yn ôl cod post a dewiswyd sampl systematig⁷ o gyfeiriadau o bob ALI gan ddefnyddio maint y sampl darged ym mhob ALI. Cafodd cyfeiriadau a samplwyd o fewn y pedair blynedd ddiwethaf ar gyfer unrhyw un o arolygon cymdeithasol y SYG neu ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol yn 2018-19, 2019-20, 2020-21 neu 2021-22 eu hepgor drwy ddefnyddio Ffeil Cyfeiriadau a Ddefnyddiwyd yn Arolygon Cymdeithasol y SYG, sef rhestr o gyfeiriadau a samplwyd ar gyfer arolygon cymdeithasol a gynhelir gan y SYG⁸.
- 2.11 O ystyried yr ansicrwydd ynghylch amrywiaeth yn y gyfradd ymateb a chymhwysedd, yn ogystal â'r gofyn arferol am arolwg peilot, cafodd sampl wrth gefn a oedd yn hafal i'r brif sampl ei thynnu, a hefyd ei haenu yn ôl ALI, drwy'r dull a amlinellwyd uchod, er yn annibynnol ar y brif sampl. Tynnwyd sampl o'r un maint er mwyn cynnig y cyfle i roi hwb i'r brif sampl unrhyw bryd ac mewn unrhyw ardal am na wyddys ar yr adeg y tynnwyd y sampl wrth gefn ym mha ardal y gallai fod angen achosion ychwanegol. Defnyddiwyd y sampl wrth gefn i roi hwb i'r samplau ar gyfer mis penodol mewn ALLau gofynnol, os oedd y cyfraddau ymateb a gyflawnwyd yn is na'r disgwyl wrth dynnu'r brif sampl.
- 2.12 Addaswyd meintiau'r samplau a ddewiswyd bob mis gyda'r nod o fod yn fwy cyson â thargedau'r ALLau erbyn diwedd y flwyddyn. Bob mis, defnyddiwyd y nifer cyfredol o gyfweiliadau a gyflawnwyd fesul ALI ynghyd â'r data diweddaraf am gyfraddau ymateb ALI a chyfraddau anghymwysedd i ragfynegi nifer terfynol y cyfweiliadau a gyflawnwyd. Yna addaswyd y sampl a ddewiswyd naill ai i fyny neu i lawr, lle roedd y gyfradd a gyflawnwyd a ragfynegwyd yn wahanol i'r targed. Roedd y dull hwn yn sicrhau gwerth am arian; defnyddiwyd yr adnodd maes yn y ffordd fwyaf effeithlon i geisio cyrraedd y targedau gofynnol er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon cadarn.

⁷ Caiff cyfeiriadau eu trefnu yn ôl cod post, yna caiff man dechrau yn y rhestr hon ei ddewis ar hap a chaiff pob fed cyfeiriad ei ddewis (yn dibynnu ar y gyfran sydd ei hagen ym mhob ALI).

⁸ Mae'r union gyfnod ar gyfer atal cyfeiriadau rhag cael eu hailddewis yn amrywio o arolwg i arolwg.

- 2.13 Os oedd angen lleihau sampl, câi cyfeiriadau eu dileu'n systematig o sampl gyfan yr ALI er mwyn sicrhau na chyflwynwyd unrhyw duedd. Os oedd angen cynyddu sampl, byddai'r sampl wrth gefn yn cael ei defnyddio.
- 2.14 Mae Tabl 2.1 yn dangos trosolwg o ddosbarthiad y sampl ledled ALLau ar gyfer y sampl a ddewiswyd yn wreiddiol a'r sampl derfynol a ddefnyddiwyd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r dosbarthiad hwn wedi newid ers y blynyddoedd cyn y pandemig oherwydd y newid yng nghyfraddau anghymwysedd a chyfraddau ymateb ALLau yn ystod y pandemig, ond y nod oedd cynnal 12,000 o gyfweliadau ledled Cymru o hyd.

Tabl 2.1: Nifer y cyfeiriadau a gafodd eu cynnwys yn y brif sampl fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Maint y sampl wreiddiol a ddewiswyd	Maint y sampl a ddyrannwyd yn derfynol
Blaenau Gwent	958	1,222
Pen-y-bont ar Ogwr	1,217	1,232
Caerffili	1,564	1,525
Caerdydd	3,009	3,103
Sir Gaerfyrddin	1,684	1,389
Ceredigion	1,152	1,158
Conwy	1,116	1,100
Sir Ddinbych	898	807
Sir y Fflint	1,480	1,284
Gwynedd	1,319	1,561
Ynys Môn	1,106	1,097
Merthyr Tudful	1,026	972
Sir Fynwy	1,093	1,033
Castell-nedd Port Talbot	1,246	1,536
Casnewydd	1,375	1,304
Sir Benfro	1,283	1,077
Powys	3,336	3,681
Rhondda Cynon Taf	2,129	2,148
Abertawe	2,133	2,202
Torfaen	966	828
Bro Morgannwg	1,125	1,219
Wrecsam	1,142	1,072
Cyfanswm (Cenedlaethol)	32,357	32,550

Trefnu'r sampl yn sypiau a'u dyrannu

- 2.15 Cafodd prif sampl 2022-23 ei rhannu'n gwtâu (clystyrau o gyfeiriadau) ac yna eu dyrannu yn ôl misoedd. Cafodd y cwtâu eu dyrannu'n seiliedig ar eu sgôr gyfartalog ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) gan sicrhau bod cymysgedd o gwtâu sgorio uchel, isel a chanolig yn ystod pob chwarter ar gyfer pob ALI. Tybiwyd y byddai'r dosbarthiad ar draws ALLau a sgoriau MALIC yn sicrhau bod y sampl chwarterol yn gynrychioliadol o'r boblogaeth. Gan na chaiff pob ardal ei chwmpasu ym mhob chwarter, caiff y sampl chwarterol ei chlystyru.
- 2.16 Cafodd y cwtâu hyn eu dyrannu gan Reolwyr Cyfwelwyr i Gyfwelwyr Maes a fyddai wedyn yn gweithio i sicrhau ymateb gan y cyfeiriadau hyn a ddyrannwyd yn ystod y mis.

2.17 Roedd cwota cyfartalog yn cynnwys tua 26 o achosion. Y cwota mwyaf a ddyrannwyd yn 2022-23 oedd 39 o achosion. Roedd nifer y cyfeiriadau a ddyrannwyd y mis yn amrywio rhwng 2668 (Chwefror 2023) a 2870 (Medi 2022).

Dewis anheddau, cartrefi ac unigolion

- 2.18 O dan amgylchiadau pan ddarganfu cyfwelydd ar ddechrau'r alwad ffôn neu yn ystod ymweliad Cnocio i wthio, fod mwy nag un annedd (e.e. bloc o fflatiau) neu fwy nag un cartref (e.e. dwy fflat un gwely neu fwy) mewn cyfeiriad a samplwyd, dewiswyd un annedd/cartref ar hap gan ddefnyddio Grid Kish⁹. Cafodd cyfwelwyr gyfarwyddyd i hysbysu'r brif swyddfa o dan amgylchiadau o'r fath er mwyn i'r pencadlys ddiweddar cofrestr y sampl (yn achos cyfeiriadau lluosog) a hefyd roi cymorth, yn ôl yr angen, pan nad oedd yn glir sut y dylid dewis ar hap (e.e. lle nad oedd fflatiau nac unedau cartref wedi'u rhifo).
- 2.19 O fewn y cartref a samplwyd, cyfwelwyd ag un oedolyn (16 oed a throsodd) ar gyfer yr arolwg. Os oedd mwy nag un person 16 oed neu drosodd yn byw yn y cyfeiriad, dewiswyd ymatebydd ar hap. Ers mis Ionawr 2021, symudodd yr Arolwg Cenedlaethol i'r dull dewis yn seiliedig ar y pen-blwydd nesaf yn hytrach na'r dull dewis Kish a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol gan ei fod yn ddull haws i'w ddefnyddio dros y ffôn. Nid oes angen llawer o wybodaeth bersonol am aelodau'r cartref cyn iddynt gytuno i gymryd rhan ar gyfer y dull dewis hwn. Nodir y rhesymau dros y newid i'r dull hwn yn [adroddiad technegol 2021-22](#).
- 2.20 Os nad oedd yr aelod o'r cartref roedd y cyfwelydd yn siarad ag ef yn gwybod pen-blwydd pawb yn y cartref, gofynnwyd i'r unigolyn "o'r pen-blwyddi rydych yn eu gwybod, pwy sydd â'r pen-blwydd nesaf?".
- 2.21 Mae Tabl 2.2 yn dangos cywirdeb y dull dewis yn seiliedig ar y pen-blwydd nesaf. Mewn 92.2% o'r achosion, dewiswyd yr ymatebydd yn gywir gan ddefnyddio'r dull dewis yn seiliedig ar y pen-blwydd nesaf. Mewn 1.8% o achosion, nid oedd modd mesur y cywirdeb oherwydd bod ymatebydd yn y cartref wedi gwrthod rhoi dyddiad geni, dim ond dyddiad geni rhannol a gafwyd neu cafodd dau berson neu fwy yn y cartref eu geni ar yr un diwrnod. Mewn 6% o'r achosion, dewiswyd y person anghywir; gallai hyn fod oherwydd bod y pen-blwydd 'hysbys' nesaf wedi'i ddefnyddio ar y pwynt dewis a bod yr ymatebydd wedyn yn gwybod pen-blwyddi

⁹ Tabl o rifau ar hap yw Grid Kish, a ddefnyddir yn yr achos hwn i ddewis unedau preswyl o fewn annedd ar hap. Gweler Atodiad A.

gwahanol i'r person gwreiddiol a oedd yn rhan o'r broses ddewis, neu oherwydd dewis anghywir gwirioneddol.

Tabl 2.2 Cywirdeb y dull dewis yn seiliedig ar y pen-blwydd nesaf

	Amllder	Canran (%)
Person â'r pen-blwydd nesaf wedi'i ddewis yn gywir	10,270	92.2
Person â'r pen-blwydd nesaf heb ei ddewis yn gywir	673	6.0
Dyddiad geni rhannol, rhywun yn y cartref wedi'i eni ar yr un diwrnod neu ymatebydd yn y cartref wedi gwrthod rhoi dyddiad geni ar y cam cyfweld	197	1.8
Cyfanswm	11,140	100.0

3. Cynnwys a datblygiad yr holiadur

Trosolwg o'r holiadur

- 3.1 Mae dyluniad yr arolwg yn seiliedig ar holiadur dros y ffôn a roddir i un oedolyn 16 oed a throsodd a ddewisir ar hap ym mhob cartref sy'n cael ei samplu. Yn 2021-22, gofynnwyd i is-sampl o ymatebwyr gwblhau'r arolwg ar-lein. Ar gyfer 2022-23, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr gymryd rhan mewn arolwg ar-lein ar ôl cwblhau'r cyfweiliad dros y ffôn. Datblygwyd cynnwys yr holiadur ar gyfer y cyfweiliad dros y ffôn a'r arolwg ar-lein gan Lywodraeth Cymru a'r tri chorff a noddir ganddi. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r holiadur ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid bob blwyddyn er mwyn canfod anghenion polisi newydd a phennu cynnwys yr holiadur ar gyfer y flwyddyn arolwg newydd. Roedd yr [holiadur](#) craidd o fis Ebrill 2022 yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau gwahanol, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, llesiant, iechyd personol, y celfyddydau, gweithgareddau chwaraeon, gofal plant, addysg plant, gwirfoddoli a chyflogaeth, amddifadedd materol, y Gymraeg, trafnidiaeth, a'r rhyngrwyd. Caiff rhestr lawn o'r modiwlau a gafodd eu cynnwys yn yr holiadur terfynol ei chyhoeddi ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).
- 3.2 Cynhaliwyd arolwg peilot bach ym mis Ionawr 2022 i brofi'r holiadur terfynol ar gyfer 2022-23, yn arbennig er mwyn profi'r modiwlau newydd yn yr holiadur.

Cynnwys a datblygiad yr holiadur

- 3.3 Yn 2022-23, roedd cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys pynciau y gofynnwyd amdanynt mewn blynyddoedd blaenorol ond gyda chwestiynau wedi'u haddasu fel eu bod yn gweithio dros y ffôn. Datblygwyd cwestiynau newydd hefyd. Bydd newidiadau ar gyfer blynyddoedd dilynol yn cynnwys diweddariadau bach i

gwestiynau unigol sy'n parhau o flwyddyn i flwyddyn, rhoi'r gorau i ddefnyddio rhai modiwlau yn yr holiadur, neu eu hatal dros dro os nad oes angen eu gofyn bob blwyddyn, yn ogystal â chyflwyno modiwlau a chwestiynau unigol newydd i'r holiadur.

- 3.4 Yn dilyn y newid i'r dull casglu o ganlyniad i'r pandemig, cafodd sawl modiwl ei eithrio o'r holiadur dros y ffôn am nad oedd yn addas ar gyfer y dull casglu hwn. Roedd rhai cwestiynau yn rhan o adran hunangyfweiliad â chymorth cyfrifiadur y cyfweiliad wyneb yn wyneb yn flaenorol, a gallai ymatebwyr gwblhau'r cwestiynau hyn yn breifat oherwydd y natur sensitif a'r tebygolrwydd uwch o duedd dymunoldeb cymdeithasol (h.y. gamblo a chosbi plant yn gorfforol). Symudwyd y modiwlau mwy sensitif hyn i'r holiadur ar-lein. Yn ogystal, symudwyd rhai cwestiynau i'r holiadur ar-lein naill ai am fod y cwestiynau neu'r categorïau ymateb yn rhy hir i'w darllen dros y ffôn. Casglwyd atebion i'r cwestiynau hyn yn well pan allai'r ymatebydd ddarllen y cwestiynau ei hun felly.
- 3.5 Ceir rhagor o wybodaeth am gynnwys holiadur terfynol 2022-23 a'r cefndir i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Rhaglennu a phrofi'r holiadur

- 3.6 Cafodd yr holiadur dros y ffôn ei sgriptio gan y SYG a'i weinyddu drwy ddefnyddio Statistics Netherlands Blaise Enterprise 4.8 (Blaise 4).
- 3.7 Nododd Llywodraeth Cymru nifer o fodiwlau ar gyfer yr holiadur lle mai dim ond ar lefel genedlaethol, lefel bwrdd iechyd lleol, neu leol ranbarthol yr oedd angen amcangyfrifon arolwg. Felly, ni ofynnwyd rhai o fodiwlau'r holiadur dros y ffôn ac ar-lein i bob ymatebydd, a helpodd i ostwng hyd cymedrig y cyfweiliad dros y ffôn i tua 31 munud a'r arolwg ar-lein i tua 9 munud. Cafodd adrannau perthnasol eu rhaglennu i'w gofyn i is-sampl yn unig o ymatebwyr a ddewiswyd ar hap, ac weithiau o fewn ardaloedd daearyddol penodol. Mae Atodiad B yn rhoi trosolwg o fodiwlau a is-samplwyd, maint y sampl flynyddol yr oedd ei angen, ac ystyriaethau daearyddol.
- 3.8 Cafodd yr holiadur ar-lein ei sgriptio gan y SYG a'i weinyddu drwy ddefnyddio Statistics Netherlands Blaise Enterprise 5 (Blaise 5).
- 3.9 Wrth raglennu sgript yr holiadur yn Blaise ar gyfer yr holiadur dros y ffôn ac ar-lein, gwnaeth y SYG gynnwys nifer o wiriadau meddal a chaled fel y byddai cyfwelwyr/ymatebwyr yn effro i achosion lle byddai cyfuniad o atebion yn annhebygol neu'n annichonadwy. Lle roedd cyfuniad o atebion yn annhebygol,

gwnaeth gwiriad meddal dynnu sylw'r cyfwelydd/ymatebydd at yr atebion a roddwyd a gofyn iddo/iddi gadarnhau'r ymateb cyn bwrw ymlaen – ond caniatawyd i'r cyfwelydd/ymatebydd fwrw ymlaen os cadarnhawyd bod y wybodaeth hon yn gywir (e.e. mewnbynnu dyddiad geni sy'n rhoi oedran o 110). Ysgogwyd gwiriad caled pan oedd yn amlwg nad oedd y cyfuniad o atebion a roddwyd yn bosibl (er enghraifft, mab/merch yn cael ei godio/chodio fel pe bai'n hŷn na'r fam/tad). Yn yr achosion hyn, ni allai'r cyfwelydd/ymatebydd fwrw ymlaen â gweddill yr holiadur nes bod y wybodaeth hon wedi cael ei chywiro. Roedd y gwiriadau hyn yn sicrhau yr ymdrinnid ag anghysonderau yn y data ar y cam cyfweld, gan wella ansawdd y data.

3.10 Er mwyn sicrhau bod y sgrïpt derfynol yn rhedeg yn esmwyth ac wedi'i gosod yn ôl y fanyleb, cynhaliwyd y gwiriadau canlynol gan y SYG a Llywodraeth Cymru:

- Testun cwestiynau – ei fod yn gyson â manyleb yr holiadur drwyddi draw.
- Llwybro'r cwestiynau – bod y sgrïpt wedi'i rhaglennu yn unol â'r llwybrau a bennwyd – profwyd hyn drwy ddefnyddio nifer o senarios gwahanol o gartref ac ymateb.
- Rhifau/enwau'r cwestiynau – bod y rhain yn gyson â rhifau/enwau ym manyleb yr holiadur lle y bo'n berthnasol.
- Arddangosiad sgrin – bod y cwestiynau wedi'u fformatio yn unol â safon y SYG a'u harddangos yn glir, gan osgoi unrhyw sgrolio diangen i gyfwelwyr/ymatebwyr.
- Rhestrau o ymatebion – bod y rhain yn gyson â manyleb yr holiadur a'u bod wedi'u harddangos yn glir, gan osgoi unrhyw sgrolio diangen i gyfwelwyr/ymatebwyr.
- Cyfarwyddiadau i gyfwelwyr/ymatebwyr – bod y rhain yn glir ac yn gyson â manyleb yr holiadur.
- Testun-lenwi – bod unrhyw gwestiynau neu destun o fewn cwestiynau yn cael eu harddangos yn gywir.
- Gwiriadau cyfweliad dros y ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI) – bod yr holl wiriadau meddal a chaled yn y CATI yn cael eu hysgogi lle y bo hynny'n gymwys.
- Symudedd/dibynadwyedd y sgrïpt – yn yr holiadur dros y ffôn, bod y sgrïpt yn galluogi cyfwelwyr i symud ymlaen (ac yn ôl, os oedd angen er mwyn diwygio'r wybodaeth a fewnbynwyd) heb golli data na gwallau eraill. Yn yr holiadur ar-lein, ni allai'r ymatebwyr ddychwelyd i fodiwlau a gwblhawyd yn flaenorol er mwyn sicrhau diogelwch eu data.

- Dewis iaith – bod yr adnodd casglu data yn galluogi cyfwelwyr i ddewis iaith ar ddechrau'r cyfweiliad a pharhau yn yr iaith hon, a thoglo rhwng Cymraeg a Saesneg yn ôl gofynion yr ymatebydd.
- Cyfieithu – bod yr holiadur yn llifo'n dda yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- 3.11 Yn ogystal â'r gwiriadau uchod, cynhaliodd y SYG ymarfer 'gorlifo data' ar sgrïpt derfynol y prif arolwg, a greodd nifer o ffug gyfweiliadau. Hwn oedd y gwiriad olaf bod holl gamau is-samplu'r holiadur, yn seiliedig ar ddewis ar hap, wedi'u gosod yn ôl y fanyleb.
- 3.12 Hefyd, rhoddwyd set ddata SPSS¹⁰ grai (.sav) yn seiliedig ar y 250 cyfweiliad cyntaf i Lywodraeth Cymru er mwyn gwirio amlderau ym mhob cwestiwn a ffracsiynau is-samplu. Defnyddiwyd y camau gwirio hyn i nodi problemau posibl gyda'r sgrïptiau CATI a CAWI (cyfweiliad dros y we â chymorth cyfrifiadur).

Cyfieithu i'r Gymraeg

- 3.13 Darparodd Llywodraeth Cymru fanyleb holiadur a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Y nod oedd paratoi fersiwn Gymraeg o'r holiadur a allai gael ei deall ym mhob rhan o Gymru. Rhoddwyd y fersiwn wedi'i chyfieithu i'r SYG unwaith bod y fanyleb ar gyfer y fersiwn Saesneg o'r holiadur yn derfynol. Lle roedd cwestiynau yn dod o arolygon dwyieithog blaenorol, defnyddiwyd cyfieithiadau sefydledig er cysondeb a pharhad. Ar gyfer unrhyw gwestiynau newydd neu ddiwygiedig, defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyfieithwyr ardystiedig, gan sicrhau bod yr un termau yn cael eu defnyddio drwy'r holiadur cyfan. Roedd timau ymchwil y SYG a Llywodraeth Cymru yn gallu cysylltu â siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau ansawdd y cyfieithiad, yn ogystal â chyflwyno mân esboniadau a newidiadau.
- 3.14 Defnyddiodd y SYG fanyleb yr holiadur Saesneg er mwyn gosod llwybro'r holiadur. Cafodd y testun Cymraeg ei gynnwys yn ddiweddarach yn y manau perthnasol yn y sgrïpt, a gwnaed addasiadau perthnasol i'r rhannau llenwi er mwyn darparu ar gyfer gwahaniaethau gramadegol Cymraeg. Profwyd y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg o'r sgrïptiau CATI a CAWI yn annibynnol.
- 3.15 Codiodd cyfwelwyr ddewis iaith yr ymatebydd ar ddechrau'r cyfweiliad. Roedd rhaglen Blaise yn galluogi cyfwelwyr i doglo rhwng Cymraeg a Saesneg ar gyfer unrhyw gwestiwn ar unrhyw adeg drwy gydol yr holiadur. Bwriadwyd i hyn helpu mewn sefyllfaoedd lle roedd ymatebwyr yn dewis cael eu cyfweild mewn un iaith ond

¹⁰ Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol. IBM SPSS Statistics


roedd angen cyfieithiad ar unwaith o gwestiwn neu eiriad penodol am unrhyw beth y gallent fod wedi cael trafferth ei ddeall yn newis iaith y cyfweliad.

- 3.16 Os oedd angen cynnal y cyfweliad mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, roedd cyfwelwyr yn darllen y cwestiynau yn Saesneg ac roedd cyfieithydd yn eu cyfieithu. Byddai'r cyfieithydd naill ai'n aelod arall o gartref yr ymatebydd neu gallai'r cyfwelydd ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn er mwyn cwblhau'r cyfweliad. Pan ddefnyddiwyd cyfieithydd, ni ofynnwyd modiwlau penodol a ystyriwyd yn rhai sensitif er mwyn osgoi problemau ynglŷn â chyfrinachedd drwy ddatgelu gwybodaeth i drydydd person.
- 3.17 Cyfieithwyd yr holiadur a deunyddiau ymlaen llaw gan un o gontractwyr Llywodraeth Cymru. Cafodd mân newidiadau eu gwneud i'r holiadur neu'r deunyddiau ymlaen llaw gan dîm Llywodraeth Cymru a thîm y SYG.


Amseriadau cyfweliadau

- 3.18 Cafodd nifer o bwyntiau amseru eu cynnwys yn yr holiadur CATI er mwyn mesur hyd pob adran. Yn ogystal â hynny, defnyddiwyd data trywydd archwilio i amcangyfrif hyd yr holiadur cyfan yn ogystal â hyd cwestiynau unigol lle nad oedd pwyntiau amseru yn ddigon cywir. Ar gyfer yr holiadur CAWI, cymerwyd amseriadau rhwng amser dechrau'r arolwg ac amser gorffen yr arolwg, yn ogystal ag ar gyfer adrannau yn yr holiadur. Mae Ffigur 3.1 yn dangos y newid yn hyd cymedrig a chanolrifol yr holiadur dros y ffôn dros flwyddyn yr arolwg. Mae Ffigur 3.2 yn dangos y newid yn hyd cymedrig a chanolrifol yr holiadur ar-lein dros flwyddyn yr arolwg. Cymerwyd yr amseriadau ar gyfer yr arolwg ar-lein o ddechrau'r arolwg tan ddiwedd y pwnc gwirfoddoli, ni chafodd yr adran adborth ei chynnwys.

Ffigur 3.1: Hyd cyfweliadau dros y ffôn ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau




Ffigur 3.2: Hyd holiaduron ar-lein ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau



3.19 Mae Atodiad C yn rhoi trosolwg o hyd canolrifol a chymedrig pob adran o'r holiaduron CATI a CAWI (heblaw am yr adrannau am wirfoddoli a newid yn yr hinsawdd – ymddygiadau yn yr holiadur CAWI). Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli amseriadau cyfartalog ar gyfer pob adran drwy'r sampl lawn gyfan, sy'n golygu, lle na ofynnwyd cwestiynau penodol (e.e. o ganlyniad i is-samplu) i ymatebydd, bod amser y cwestiwn wedi'i bennu'n sero mewn achosion perthnasol.


3.20 Defnyddiwyd dull is-samplu yn yr arolwg, a oedd yn golygu bod rhai ymatebwyr yn cael eu holi am fodiwlau penodol ond na chafodd eraill eu holi. Mae Ffigur 3.3 yn rhoi trosolwg o ddisbarthiad hyd cyfweiliadau'r holiadur dros y ffôn. Roedd hyd canolrifol y cyfweiliad yn 29.4 munud (hyd cymedrig o 31.3 munud), gyda 50% o ymatebwyr yn cael cyfweiliad a oedd yn para rhwng 22.5 a 37.9 munud.

Ffigur 3.3: Dosbarthiad hyd cyfweiliadau dros y ffôn mewn munudau



3.21 Mae Ffigur 3.4 yn rhoi trosolwg o ddisbarthiad hyd cyfweiliadau ar gyfer yr holiadur dros y ffôn. Roedd hyd canolrifol yr arolwg yn 7.5 munud (hyd cymedrig o 8.7 munud), gyda 50% o ymatebwyr yn cael cyfweiliad a oedd yn para rhwng 5.5 a 10.4 munud.

Ffigur 3.4: Dosbarthiad hyd arolygon ar-lein mewn munudau



Newidiadau i sgrïpt yr holiadur Blaise

3.22 Cyflwynwyd nifer o newidiadau i sgrïpt yr holiadur yn ystod blwyddyn yr arolwg; roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau yn ymwneud â diweddarau ffracsiynau is-sampl er mwyn sicrhau bod modd sicrhau meintiau targed yr is-sampl erbyn diwedd blwyddyn yr arolwg. Roedd y prif newidiadau i'r holiadur dros y ffôn yn cynnwys y canlynol:

Mehefin 2022:

- Yn seiliedig ar adborth gan gyfwelwyr, ychwanegwyd coma at ddau gwestiwn am glybiau neu weithgareddau wedi'u trefnu er mwyn gwneud y frawddeg yn gliriach (fersiwn Saesneg yn unig).
- Ychwanegwyd y rhagenw 'their' yn y Saesneg ar gyfer y rhai a oedd wedi dewis yr opsiwn gwrthod neu ddim yn gwybod i'r cwestiwn am ryw ar gyfer pedwar cwestiwn am blant yn chwarae gyda ffrindiau. Ychwanegwyd y rhagenw priodol yn y fersiynau Cymraeg hefyd.
- Mewn sawl cwestiwn addysg, rhoddwyd enw'r plentyn yn lle 'him/her' yn y Saesneg.
- Tynnwyd y gair 'Sengl' / 'Single' o'r opsiwn ateb cyntaf ar gyfer statws priodasol. Yn ogystal, newidiwyd geiriad y cwestiwn yn y Gymraeg er mwyn

cynnwys enw'r ymatebydd yn hytrach na rhagenw. Yn seiliedig ar adolygiad gan Lywodraeth Cymru a rhywfaint o adborth gan gyfwelwyr, cafodd rhai hen enwau ac enwau a allai fod yn sarhaus am anhwylderau iechyd meddwl eu newid neu eu dileu o'r tabl chwilio ar gyfer iechyd.

- Cyflwynwyd y modiwl ar etholiadau cyngor lleol i'r holiadur a chafodd ei gadw tan ddiwedd blwyddyn yr arolwg.

Gorffennaf 2022:

- Newidiwyd y llwybro ar gyfer cwestiwn am ffitrwydd am fod rhai ymatebwyr yn cael mwy o gwestiynau nag yr oedd angen.

Hydref 2022:

- Diweddarwyd y tablau chwilio ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r rhestr o ysgolion newydd ym mis Medi gan Lywodraeth Cymru.

Ionawr 2023:

- Ychwanegwyd testun ychwanegol mewn perthynas â'r daleb, gan nodi bod y daleb yn cael ei hanfon o fewn tair wythnos fel arfer.
- Defnyddiwyd y geiriad ar y porth ar-lein i roi diweddariad rhif ffôn i 'cadw a pharhau'.

Chwefror 2023:

- Diweddarwyd y rhestr o ysgolion er mwyn ychwanegu pedair ysgol at y rhestrau uwchradd a chynradd.

Mawrth 2023:

- Cafodd cwestiwn am sut y cafwyd gafael ar y rhif ffôn ei symud yn yr holiadur fel y gellid ei gwblhau ar gyfer achosion anghynhyrchiol hefyd.

Newidiadau i'r ffracsiynau is-samplu

- 3.23 Cafodd rhifau is-samplu eu monitro bob mis drwy'r flwyddyn. Mae Tabl 3.1 isod yn dangos y ffracsiynau is-samplu ar ddechrau blwyddyn yr arolwg ac yn rhoi manylion am newidiadau a wnaed i'r ffracsiynau hyn drwy'r flwyddyn. Rhannwyd yr is-samplau deintyddol ac iechyd personol yn ôl bwrdd iechyd lleol. Gwnaed y rhan fwyaf o'r newidiadau i'r is-sampl ddeintyddol, ond gan fod y sampl iechyd yn cael ei thynnu o'r sampl ddeintyddol, effeithiodd y newidiadau i'r is-sampl ddeintyddol ar yr is-sampl iechyd hefyd. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r ffracsiynau ym mis Mai, mis

Gorffennaf a mis Medi, felly nid yw'r misoedd hyn wedi cael eu cynnwys yn y tabl. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r is-samplau llifogydd/bioamrywiaeth a diwylliant yn yr holiadur dros y ffôn na'r is-samplau llesiant a gamblo yn yr holiadur ar-lein, arhosodd y rhain ar 50%.

Tabl 3.1: Newidiadau is-samplu a wnaed drwy gydol blwyddyn arolwg 2022-23

Is-sampl	Ebr	Meh	Awst	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwe	Maw
Sampl Ddeintyddol									
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	84%	DN	+4%	+4%	+8%	-4%	-1%	-1%	DN
Aneurin Bevan	50%	+10%	DN	-2%	-3%	-2%	+1%	-4%	-2%
Prifysgol Betsi Cadwaladr	45%	DN	+5%	DN	-1%	DN	DN	-2%	DN
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	76%	+4%	+2%	DN	-1%	DN	DN	-4%	-2%
Cwm Taf	74%	+6%	DN	+2%	DN	DN	-1%	-4%	-2%
Hywel Dda	72%	+2%	-2%	-2%	+5%	+3%	+4%	DN	+3%
Addysgu Powys	97%	+3%	DN	-2%	+1%	+1%	DN	DN	DN
Sampl Iechyd Personol									
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	75%	DN	+1%	DN	DN	DN	DN	DN	DN
Aneurin Bevan	75%	DN	DN	DN	DN	DN	DN	-4%	DN
Prifysgol Betsi Cadwaladr	76%	DN	DN	DN	DN	DN	DN	DN	DN
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	75%	DN	+1%	DN	DN	DN	DN	-3%	DN
Cwm Taf	75%	DN	DN	DN	DN	DN	DN	DN	DN
Hywel Dda	75%	DN	DN	DN	DN	DN	DN	+1%	+1%
Addysgu Powys	75%	+2%	+2%	-2%	DN	DN	+5%	+1%	DN
Chwarae (pobl nad ydynt yn rhieni)	20%	+2%	+1%	-1%	+2%	DN	+1%	DN	DN
Gofal cymdeithasol (pobl nad ydynt yn defnyddio gofal cymdeithasol)	18%	DN	+1%	DN	DN	DN	-1%	DN	DN
Teithio Llesol	17%	+2%	+1%	-2%	DN	DN	DN	-1%	DN

Noder: DN = dim newid

4. Gwaith maes

Recriwtio cyfwelwyr

- 4.1 Mae holl gyfwelwyr y SYG yn aelodau o staff a gyflogir yn uniongyrchol, sy'n cael cyflog yn seiliedig ar eu horiau cytundebol (mae hyn yn cynnwys amser cyfweld yn ogystal ag amser at ddibenion teithio a gweinyddol). Ni thelir ffioedd penodol iddynt fesul cyfweliad a gynhaliwyd nac ar sail gweithgareddau penodol eraill sy'n ymwneud ag arolygon. Yn lle hynny, mae eu cyflog yn cwmpasu'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'u swyddi, gan gynnwys hyfforddiant, paratoi gwaith, teithio i leoliadau ac ati. At hynny, mae cyfwelwyr yn hyblyg o ran yr oriau a weithir ganddynt er mwyn gweithio yn unol â'r galw a'r patrymau ymweld sydd eu hangen er mwyn gwneud gwaith maes yn y ffordd orau bosibl a hyrwyddo ansawdd data.
- 4.2 Caiff swyddi gwag i gyfwelwyr eu hysbysebu ar wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil¹¹. Fel arfer, ar ôl cylch cychwynnol o sgrinio ceisiadau a dethol, gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweliad sy'n seiliedig ar gymwyseddau, er mwyn cyflymu'r broses o benodi pobl addas.
- 4.3 Parhaodd y broses o recriwtio, hyfforddi a briffio cyfwelwyr newydd drwy gydol cyfnod yr arolwg. Cyn i gyfwelwyr newydd gael eu briffio ar yr Arolwg Cenedlaethol, bu'n rhaid iddynt gwblhau hyfforddiant safonol y SYG i gyfwelwyr, a oedd yn cynnwys gweithio ar gwtâu i arolygon eraill a gynhaliwyd gan y SYG fel yr Arolwg o'r Llafurlu.
- 4.4 Cafodd cyfanswm o 88 o gyfwelwyr ac 8 rheolwr cyfwelwyr eu briffio ar Arolwg Cenedlaethol 2022-23, gyda rhwng 58 a 70 o gyfwelwyr yn gweithio ar yr arolwg bob mis (Tabl 4.1). Roedd saith cyfwelydd (chwech o fis Tachwedd) ac un rheolwr cyfwelwyr yn siarad Cymraeg. Roedd llai o gyfwelwyr yn gweithio ar yr Arolwg Cenedlaethol na'r flwyddyn flaenorol, a oedd yn amrywio o 74 i 81 o gyfwelwyr bob mis yn 2021-22. Roedd hyn o ganlyniad i anawsterau recriwtio a throsiant, gan olygu bod llai o oriau cyfweld yn 2022-23 ac y cyflawnwyd llai o gyfweliadau.

¹¹ [Civil Service job search - Civil Service Jobs - GOV.UK](#)

Tabl 4.1: Nifer y cyfwelwyr yn ôl misoedd yr arolwg*

Mis	Nifer y cyfwelwyr a neilltuwyd i'r arolwg **
Ebrill 2022	63
Mai	61
Mehedin	62
Gorffennaf	62
Awst	60
Medi	62
Hydref	59
Tachwedd	63
Rhagfyr	70
Ionawr 2023	64
Chwefror	64
Mawrth	58
Cyfartaledd	62

* Mae nifer y cyfwelwyr yn y tabl isod yn cyfeirio at niferoedd yn hytrach na ffigurau cyfwerth ag amser llawn (CALI). Mae oriau cyfwelwyr yn 0.6 CALI, ar gyfartaledd.

**Dim ond cyfwelwyr a oedd yn gweithio ar yr arolwg yn ystod y misoedd gwaith maes a gaiff eu cwmpasu gan nifer y cyfwelwyr yn y golofn hon.

Briffio cyfwelwyr

4.5 Mynychodd pob cyfwelydd ddiwrnod briffio rhithwir. Roedd y diwrnod briffio yn cynnwys y canlynol:

- Cefndir yr arolwg – yn esbonio'r cynnydd a wnaed ar yr arolwg, gan dynnu sylw at gyflawniadau ac unrhyw ddatblygiadau newydd ar yr arolwg.
- Gofynion a dogfennau ymweld – yn ailadrodd gweithdrefnau gwaith maes, yn enwedig pan oeddent yn wahanol i weithdrefnau safonol y SYG, fel defnyddio a gweinyddu deunyddiau'r arolwg.
- Cynnwys yr holiadur – yn rhoi trosolwg o bob maes yn yr holiadur, ynghyd ag ychydig o wybodaeth gefndir am fodiwlau i'w his-samplu, gan dynnu sylw'n benodol at adrannau lle roedd angen briffio manylach ar y ffordd roedd angen eu gweinyddu.
- Diogelu a chysylltu data – yn tynnu sylw at Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (fel olynydd y Ddeddf Diogelu Data a'r GDPR) a'i ystyr, gan esbonio pwysigrwydd a manteision cysylltu data'r arolwg â chofnodion gweinyddol eraill, gan roi gwybodaeth gefndir am y cysylltiadau data arfaethedig ar gyfer data'r

Arolwg Cenedlaethol, ac esbonio'r ffordd yr ymdrinnir â'r cerdyn dangos, y daflen a'r siart lif ynglŷn â chysylltu data.

- Gweinyddu yn y maes – yn cwmpasu gwybodaeth gyffredinol am weinyddu'r arolwg.

4.6 Ar y cyd â'r diwrnod briffio, cafodd cyfwelwyr ddeunydd dysgu ar ffurf achosion hyfforddi, a dogfen ganllaw a oedd yn cynnwys manylion am gwmpas yr arolwg, deunydd ysgrifennu, cyfnodau maes, nodiadau i helpu gyda'r holiadur a gwybodaeth am weinyddu'r arolwg. Cynhaliwyd diwrnod briffio i gyfwelwyr yng nghanol y flwyddyn hefyd yn ogystal â sesiynau rhithwir i drafod materion gwaith maes, rhannu gweithdrefnau a darparu unrhyw hyfforddiant ychwanegol. I gael rhagor o wybodaeth am gwmpas yr arolwg, cyfeiriwch at [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Goruchwyliaeth a rheoli ansawdd

4.7 Mae'r SYG yn defnyddio cyfres sefydledig o fesurau i olrhain ansawdd gwaith ei chyfwelwyr. Prif nodweddion y dull gweithredu hwn yw:

- defnyddio targedau clir y gellir monitro perfformiad cyfwelwyr yn eu herbyn
- cynnal gwiriadau rheoli ansawdd ar gyfweiliadau byw er mwyn deall sut mae'r cyfwelydd yn cynnal ei gyfweiliadau
- adolygiadau rheolaidd o berfformiad er mwyn cael dealltwriaeth fwy ansoddol o'r ffordd mae cyfwelwyr yn perfformio

Dyddiadau gwaith maes, rheoli a gweithdrefnau

4.8 Dechreuodd gwaith maes ar ddechrau mis Ebrill 2022 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Anfonwyd llythyrau ymlaen llaw a thafleini'r arolwg oddi wrth y SYG tua 10 diwrnod cyn dechrau pob cyfnod maes misol. Cyfwelwyr oedd yn gyfrifol am anfon cardiau post dilynol i'r cyfeiriadau yn y cwotâu a neilltuwyd iddynt. Roedd hyn yn sicrhau y gellid amseru dosbarthiad y deunyddiau i gyd-daro'n agos â'r amser pan oedd cyfwelwyr yn bwriadu ymweld â chartref a gellid personoli'r cerdyn post gydag enw a rhif ffôn y cyfwelydd. Effeithiodd streiciau'r Post Brenhinol ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 ar y gwaith o ddsbarthu'r llythyrau ymlaen llaw a thafleini'r arolwg.

4.9 Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu eu rhif ffôn ar borth ar-lein y gallent gael mynediad ato drwy ddefnyddio cod mynediad unigryw a ddarparwyd yn eu llythyr ymlaen llaw. Hefyd, cafodd y sampl gyfan ei thele-baru, sef proses llai ceir gafael ar

rifau ffôn o ffynhonnell sydd ar gael yn fasnachol o'r enw REaD Group, sy'n darparu cyfleuster i baru rhifau ffôn â'r cyfeiriadau a samplwyd.

- 4.10 Anogwyd cyfwelwyr i ddechrau eu haseiniadau mor fuan â phosibl yn ystod y mis dyrannu gan ddefnyddio rhifau'r porth yn y lle cyntaf, ac yna rifau ffôn wedi'u telebaru. Os nad oedd modd cael gafael ar rif ffôn neu gysylltu â'r cartref, cynhaliwyd ymweliad Cnocio i wthio. Fel rhan o hyn, byddai cyfwelwyr yn ymweld â'r cyfeiriad a samplwyd er mwyn ceisio cysylltu â'r cartref a chael rhif ffôn ar gyfer yr ymatebydd. Hefyd, un o fanteision eraill ymweliad Cnocio i wthio yw bod cyfwelwyr yn gallu gweld cyfeiriadau a samplwyd a nodi a yw cyfeiriad yn anghymwys neu'n wag. Caiff data yn ymwneud â Cnocio i wthio a chyfraddau ymateb eu cyhoeddi mewn adroddiad ar wahân.
- 4.11 Rhoddwyd un mis calendr i gyfwelwyr gwblhau pob aseiniad a dychwelyd eu canlyniadau terfynol. Fodd bynnag, roedd yr union gyfnod gwaith maes a bennwyd i gyfwelydd gwblhau pob aseiniad yn amrywio, yn dibynnu ar nifer y cyfeiriadau a neilltuwyd a'r estyniadau a roddwyd i gwblhau apwyntiadau a drefnwyd.
- 4.12 Lle cafwyd gafael ar rif ffôn ar gyfer cyfeiriad, byddai cyfwelwyr yn ffonio ar adegau gwahanol yn ystod y dydd ac ar ddiwrnodau gwahanol yn ystod yr wythnos, gan gynnwys ar y penwythnos a gyda'r nos. Roedd cyfwelwyr yn ceisio ffonio o leiaf chwe gwaith yn ystod mis y prif arolwg, gan ffonio o leiaf ddwywaith gyda'r nos yn ystod yr wythnos (ar ôl 6pm) neu ar y penwythnos cyn y gellid codio achosion yn rhai dim cyswllt. Nid oedd unrhyw derfyn uchaf ar nifer y galwadau ffôn a chafodd cyfwelwyr eu cyfarwyddo i barhau i ffonio cyfeiriadau os oeddent yn teimlo bod cyfle i gysylltu o hyd. Cofnodwyd amser, dyddiad a chanlyniad yr alwad, a chadarnhawyd patrymau ymweld yn rheolaidd fel rhan o'r adolygiad o berfformiad y cyfwelydd gan reolwr.
- 4.13 Cafodd y gwaith maes ei reoli'n ddyddiol gan dîm o Reolwyr Cyfwelwyr a oedd yn gweithio gyda Rheolwr Prosiect Maes cyffredinol. Gwnaeth aelodau o dimau Maes ac Ymchwil Arolwg Cenedlaethol Cymru'r SYG oruchwylio gwaith maes a monitro'r gyfradd gynnydd yn ddyddiol. Anfonwyd diweddariadau i Lywodraeth Cymru bob pythefnos, gan gynnwys y gyfradd gynnydd gyffredinol yn erbyn targedau a dadansoddiad o'r ffigurau ar lefel ALI.

Dogfennau gwaith maes

- 4.14 Ar gyfer 2022-23, caiff y deunyddiau a ddefnyddiwyd eu rhestru yn Nhabl 4.2 a'u cynnwys yn Atodiadau D i L.
- 4.15 Cafodd y llythyr a'r daflen ymlaen llaw â brand Llywodraeth Cymru eu postio'n ganolog gan y brif swyddfa 10 diwrnod cyn dechrau mis y prif arolwg. Rhoddwyd stoc o'r cardiau post A5 i'r cyfwelwyr a oedd yn cael eu postio gan y cyfwelwyr wythnos cyn eu hymweliad cyntaf â'r cyfeiriadau yn y cwotâu a neilltuwyd iddynt.
- 4.16 Cafodd y llythyr ymlaen llaw ei addasu ychydig ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2023 fel a ganlyn:
- Dilëwyd y gair 'cam' / 'step' o'r blwch a oedd yn dangos y broses.
 - Cafodd ail gyfeiriad at y ffaith y gallai ymatebwyr gymryd rhan yn Gymraeg neu'n Saesneg ei ddileu.
 - Gwnaed y testun ar y marc argraffu (sy'n ofynnol gan dîm argraffu'r SYG) yn fwy cynnil¹².

Mae'r ddwy fersiwn o'r llythyr ymlaen llaw wedi cael eu cynnwys yn yr atodiadau.

- 4.17 Dangosir y set lawn o ddogfennau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn Nhabl 4.2, ynghyd â disgrifiad byr o bob dogfen.

Tabl 4.2: Deunyddiau'r arolwg

Dogfen	Disgrifiad
Llythyr ymlaen llaw Llywodraeth Cymru (Atodiadau D ac E)	<ul style="list-style-type: none">• Anfonwyd ymlaen llaw i bob cyfeiriad a samplwyd• Yn hysbysu'r cartref fod y cyfeiriad wedi'i ddewis i gymryd rhan yn yr arolwg• Yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am yr arolwg• Dwy iaith
Taflen gan Llywodraeth Cymru (Atodiad F)	<ul style="list-style-type: none">• Anfonwyd ar y cyd â'r llythyr ymlaen llaw• Yn cynnwys rhagor o fanylion am bwyntiau a drafodwyd yn y llythyr, enghreifftiau o ffeithluniau a gwybodaeth gyswllt• Dwy iaith
Cerdyn post A5	<ul style="list-style-type: none">• Anfonwyd gan gyfwelwyr cyn ymweld â'r cyfeiriad

¹²Dim ond ar ochr Saesneg y llythyr y mae'r marc argraffu yn ymddangos.

Dogfen	Disgrifiad
(Atodiad G)	<ul style="list-style-type: none"> • Yn atgoffa'r cartref y bydd cyfwelydd yn ymweld â'r cyfeiriad • Dwy iaith
Cerdyn 'Cnocio i Wthio'/Galw heibio heddiw (Atodiad H)	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff hwn ei adael yn y cyfeiriad wrth Gnocio i Wthio os gwnaeth y cyfwelydd alw a bod neb ar gael • Dwy iaith
Cerdyn apwyntiad (Atodiad I)	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff hwn ei adael yn y cyfeiriad wrth Gnocio i Wthio os gwneir apwyntiad. I gael ei bostio, nid ei roi i'r ymatebydd yn uniongyrchol • Dwy iaith
Llythyr annog (Atodiad J)	<ul style="list-style-type: none"> • I'w anfon gan Reolwyr Cyfwelwyr os na lwyddwyd i gysylltu ag ymatebwyr • Dwy iaith
Llythyr ailystyried (Atodiad K)	<ul style="list-style-type: none"> • I'w anfon gan Reolwyr Cyfwelwyr os bydd ymatebydd yn gwrthod cais cyfwelydd heb roi llawer o gyfle iddo esbonio'r arolwg • Dwy iaith
Taflen llinell gymorth (Atodiad L)	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff hon ei hanfon at unrhyw un nad yw'n defnyddio'r rhyngwyd (tua 12% o'r sampl). Bydd y rhai sy'n defnyddio'r rhyngwyd yn cael dolen we i'r llinellau cymorth • Dwy iaith
Amlen arolwg	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff hon ei defnyddio i bostio taflenni/llythyrau ymlaen llaw, llythyrau ailystyried, taflenni llinell gymorth a slipiau cyfarch cymell • Mae'n cynnwys logo Llywodraeth Cymru a'r SYG ar y blaen

Tudalennau gwe am yr arolwg

- 4.18 Mae [gwefan Llywodraeth Cymru](#) yn cynnwys gwybodaeth am yr arolwg sy'n benodol i ymatebwyr. Mae'r cyfeiriad gwe hwn wedi'i nodi yn neunyddiau'r arolwg fel adnodd ychwanegol o wybodaeth i ymatebwyr ac i roi sicrwydd iddynt fod yr arolwg yn ddilys.

- 4.19 Yn ogystal â hynny, roedd gan y SYG dudalen we a oedd yn cael ei lletya ar wefan y SYG yn benodol ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, er mwyn hysbysu ymatebwyr a'r cyhoedd am rôl y SYG fel y sefydliad a gomisiynwyd i gynnal yr arolwg hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Ar ôl i'r broses casglu data gael ei chwblhau, cafodd y [dudalen we](#) ei diweddarau i ddweud nad yw'r SYG yn cynnal Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru mwyach.
- 4.20 Mae casgliad ar wahân o [dudalennau gwe ar gyfer defnyddwyr yr arolwg](#) hefyd, yn hytrach nag ymatebwyr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am yr arolwg, disgrifiad o ddull yr arolwg a chwmpas yr holiadur, y newyddion diweddaraf (er enghraifft, pan fydd data neu adroddiadau newydd yn cael eu cyhoeddi), yn ogystal â chanlyniadau ac adroddiadau o'r gwaith datblygu. Mae [copïau electronig](#) o ddeunyddiau'r arolwg hefyd wedi'u cynnwys ar y wefan.
- 4.21 Mae'r tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill

- 4.22 Cynigiwyd cyfle i bob ymatebydd gwblhau'r cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn hygyrch yn Gymraeg, darparwyd holl ddogfennau'r arolwg yn Gymraeg ac yn Saesneg. At hynny, roedd nifer o gyfwelwyr yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr ar lefelau gwahanol. Cafodd saith cyfwelydd i gyd (ac un Rheolwr Cyfwelwyr) eu hyfforddi i gynnal cyfweliadau yn Gymraeg.
- 4.23 Roedd taflen yr arolwg yn cynnwys rhif rhadffon ar gyfer Llinell Ymholiadau'r Arolwg. Gwnaeth y SYG is-gontractio Trafnidiaeth Cymru (daeth PTI Cymru yn rhan o wasanaeth Trafnidiaeth Cymru ym mis Ebrill 2022) er mwyn ymdrin â galwadau Cymraeg. Pan oedd ymatebydd yn ffonio'r rhif ffôn, gofynnwyd a hoffai siarad â rhywun yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os oedd yr unigolyn yn dewis Cymraeg, roedd ei alwad yn cael ei throsglwyddo'n awtomatig i wasanaeth Trafnidiaeth Cymru a oedd yn delio â'r cais ar ôl cwblhau 'ffurflen galwad am yr Arolwg Cenedlaethol' a'i hanfon i Llinell Ymholiadau'r Arolwg y SYG ar unwaith er mwyn iddi weithredu yn ei chylch.
- 4.24 Gallai ymatebwyr ffonio Llinell Ymholiadau'r Arolwg i drefnu cyfwelydd a oedd yn siarad Cymraeg. Cafodd ceisiadau am gyfweliad yn Gymraeg lle roedd y cyfwelydd gwreiddiol wedi cael hyfforddiant i gyfweld yn Gymraeg eu cwblhau gan yr un cyfwelydd. Fel arall, mewn achosion lle nad oedd y cyfwelydd y neilltuwyd y cyfeiriad iddo/iddi wedi cael hyfforddiant i gynnal cyfweliadau yn Gymraeg,

cyfarwyddwyd y cyfwelydd i gysylltu â Swyddfa Maes y SYG i gofnodi'r cais. Yna, trosglwyddwyd y cofnod ar unwaith i gyfwelydd a oedd yn siarad Cymraeg a allai gysylltu â'r ymatebydd yn uniongyrchol a threfnu i gynnal y cyfweiliad ar ddiwrnod addas i'r ymatebydd.

- 4.25 Mewn pum achos, cwblhaodd ymatebwyr y cyfweiliad mewn iaith heblaw am Gymraeg neu Saesneg (Tabl 4.3). Mewn un achos, cynhaliwyd y cyfweiliad gyda chymorth cyfieithydd yn y cartref (14 oed neu drosodd), a gyfieithodd y cwestiynau i ddewis iaith yr ymatebydd ac yna roi ei atebion yn ôl i'r cyfwelydd yn Saesneg. Cynhaliwyd y pedwar cyfweiliad arall gyda chymorth cyfieithydd allanol/o fewn y SYG.
- 4.26 Mewn sefyllfaoedd o'r fath, roedd sgript yr holiadur wedi'i llwybro'n awtomatig i hepgor nifer o gwestiynau sensitif. Roedd y rhain yn gwestiynau y teimlwyd y byddai'n amhriodol eu gofyn ym mhresenoldeb aelodau eraill o'r cartref neu gyfieithwyr (e.e. Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh, profiad o unigrwydd).

Tabl 4.3: Iaith y cyfweiliad

Iaith	Amllder	Canran (%)
Saesneg	10,857	97.5
Cymraeg	278	2.5
Arall	5	0.0
Cyfanswm	11,140	100.0

Cyfweiliadau dros y ffôn â chymorth a chyfweiliadau wyneb yn wyneb

- 4.27 Cyflwynwyd cyfweiliadau dros y ffôn â chymorth o fis Ebrill 2022 ar gyfer ymatebwyr na fyddent yn gallu cymryd rhan heb gymorth, er enghraifft oherwydd nam ar y lleferydd neu anawsterau clywed. Gallai'r ymatebydd gael cymorth gan aelod arall o'r cartref ac, fel gyda chyfweiliadau a gyfieithwyd, byddai sgript yr holiadur yn llwybro'n awtomatig er mwyn hepgor nifer o gwestiynau sensitif. Nid cyfweiliadau drwy ddirprwy oedd y rhain; dim ond y person a ddewiswyd allai ateb cwestiynau'r arolwg. Roedd cyfanswm o 105 o gyfweiliadau (0.9% o'r cyfweiliadau a gwblhawyd) yn gyfweiliadau dros y ffôn â chymorth. Ym mis Hydref 2022, cyflwynwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb ar gyfer amgylchiadau eithriadol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cafodd y rhain eu cynnal er mwyn sicrhau cysondeb â'r

data a gasglwyd drwy 2022-23, er mwyn gallu cymharu â data a gasglwyd yn ystod 2021-22, ac oherwydd bod yr arolwg wedi'i ddylunio ar gyfer casglu gwybodaeth dros y ffôn ac nad oedd wedi'i optimeiddio ar gyfer casglu gwybodaeth wyneb yn wyneb. Gellid cynnal cyfweiliad wyneb yn wyneb os nad oedd ymatebydd yn gallu cymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn â chymorth oherwydd rhesymau hygrychedd (er enghraifft, nam neu ddiffyg ffôn) a'i fod yn fodlon cwblhau cyfweiliad wyneb yn wyneb. Ceisiwyd caniatâd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob achos cyn y gellid cynnal cyfweiliad wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd cyfanswm o 41 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb, sef 0.4% o'r cyfweiliadau a gwblhawyd. Gwnaeth cyflwyno cyfweiliadau wyneb yn wyneb helpu i wneud yr arolwg yn fwy hygrych i ymatebwyr.

Y broses o gysylltu â chyfeiriad a samplwyd

- 4.28 Rhoddwyd taflenni cyfeiriad i gyfwelwyr ar gyfer pob cyfeiriad yn eu cwota, gan gynnwys gwybodaeth am y cyfeiriad yn ogystal â Grid Kish gyda haprifau ar gyfer y cyfeiriad perthnasol yn eu cwota, er mwyn eu galluogi i ddewis y cartref cywir yn y cyfeiriad a samplwyd os oedd angen. At hynny, defnyddiodd cyfwelwyr yr adnodd rheoli gwaith maes ar eu ffonau iPhone i gofnodi pob ymgais i ffonio a wnaed, yn ogystal â gwybodaeth am gyfansoddiad y cartref pan lwyddwyd i gysylltu.
- 4.29 Roedd angen i gyfwelwyr fynd drwy'r camau canlynol wrth ffonio neu gynnal ymweliad Cnocio i wthio:
- Cadarnhau'r cyfeiriad: Y dasg gyntaf i gyfwelwyr oedd cadarnhau'r cyfeiriad. Os oedd hyn dros y ffôn, byddent yn cadarnhau hyn gyda'r person ar y ffôn wrth gyflwyno'r arolwg. Yn ystod ymweliad Cnocio i wthio, gallai cyfwelwyr gadarnhau'r cyfeiriad eu hunain cyn cysylltu, er mwyn sicrhau eu bod yn galw heibio'r cyfeiriad cywir ac yna gadarnhau hyn gyda rhywun a oedd yn byw yn y cyfeiriad wrth gyflwyno'r arolwg.
 - Cadarnhau bod y cyfeiriad yn gymwys: Ar gyfer pob cyfeiriad, roedd angen i gyfwelwyr gadarnhau bod modd ei olrhain, ei fod yn gyfeiriad preswyl a'i fod yn brif breswylfa.
 - Cofnodi nifer yr unedau annedd: Roedd angen i gyfwelwyr gadarnhau nifer yr unedau annedd yn y cyfeiriad. Yn y rhan fwyaf o achosion, un annedd ydoedd. Os oedd mwy nag un (pan oedd cyfeiriad wedi'i rannu'n fflatiau fel arfer) gofynnwyd iddynt hysbysu'r pencadlys, a fyddai'n diweddarau ac yn

ailldyrannu'r cwota yn unol â hynny gydag un o'r cyfeiriadau wedi'i ddewis ar hap.

- Cofnodi nifer y cartrefi: Mewn nifer bach o achosion efallai fod mwy nag un cartref yn byw mewn un uned annedd. Mae'r SYG yn defnyddio'r diffiniad safonol o gartref o gyfrifiad Cymru a Lloegr, sy'n diffinio cartref fel a ganlyn: 'grŵp o bobl (nid oes rhaid iddyn nhw berthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad, ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta'. Mewn achosion lle roedd mwy nag un cartref mewn cyfeiriad a samplwyd, cyfarwyddwyd cyfwelwyr i ddefnyddio Grid Kish er mwyn cadarnhau'r cartref cywir i'w ddewis. Cynghorwyd cyfwelwyr i ailgadarnhau eu dewis o gartref gyda'r brif swyddfa, yn enwedig os oedd y broses ddewis yn aneglur (e.e. os nad oedd gan yr unedau rifau).
- Dewis yr ymatebydd o'r cartref: Ar ôl dewis yr uned annedd a'r cartref, roedd angen i'r cyfwelydd ddewis yr ymatebydd o'r cartref. Gwnaed hyn drwy ofyn pwy oedd yn cael ei ben-blwydd nesaf yn y cartref. Os nad oedd yr aelod o'r cartref yn gwybod yr holl ben-blwyddi, gofynnwyd am y pen-blwydd hysbys nesaf. Mewn cartrefi a oedd yn cynnwys un oedolyn 16 oed neu drosodd yn unig, nid oedd angen dewis unigolyn.
- Cael caniatâd rhiant: Mewn achosion lle roedd yr ymatebydd a ddewiswyd yn 16 neu'n 17 oed ac yn byw gyda rhiant neu warcheidwad, roedd angen i'r cyfwelydd gael caniatâd rhiant cyn cynnal cyfweliad. Er mwyn gwneud hyn roedd angen i'r cyfwelydd gofnodi enw'r unigolyn a oedd yn rhoi caniatâd a'i berthynas â'r ymatebydd yn yr holiadur CATI. Nid oedd angen llofnod i ategu hyn.
- Cofnodi dewis iaith cyfweliad yr ymatebydd: Cadarnhaodd y cyfwelydd dros y ffôn neu ar garreg y drws (yn ystod ymweliad Cnocio i wthio) beth oedd dewis iaith yr ymatebydd ar gyfer y cyfweliad. Ar ddechrau'r cyfweliad nododd y cyfwelydd ddewis iaith yn yr holiadur CATI, er mwyn sicrhau bod gweddill yr holiadur yn ymddangos yn yr iaith gywir (Cymraeg neu Saesneg). Ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, roedd yr holiadur yn ymddangos yn Saesneg, ond fe'i cyflawnwyd gyda chymorth cyfieithydd (gweler adran 3.16).

Yr arolwg ar-lein

- 4.30 Ar ôl cwblhau'r cyfweiliad dros y ffôn, roedd y cyfwelydd yn rhoi'r ddolen i'r arolwg ar-lein i'r ymatebydd ynghyd â chod mynediad unigryw â 12 digid. Roedd y cyfwelydd yn aros ar y ffôn nes bod yr ymatebydd yn cadarnhau ei fod wedi cael y ddolen a'r cod mynediad. Os nad oedd gan yr ymatebydd fynediad at y rhynggrwyd, roedd yn cael cynnig y cwestiynau ar-lein dros y ffôn yn awtomatig.
- 4.31 Roedd cyfwelwyr yn cael gwybod bob diwrnod am ymatebwyr nad oeddent wedi cwblhau'r arolwg ar-lein. Aeth cyfwelwyr ar drywydd y rhai nad oeddent wedi cwblhau'r arolwg drwy anfon neges destun yn gyntaf (2 ddiwrnod ar ôl y cyfweiliad dros y ffôn), yna drwy anfon neges e-bost (3 diwrnod ar ôl y cyfweiliad dros y ffôn) ac, yn olaf, dros y ffôn (5 diwrnod ar ôl y cyfweiliad dros y ffôn). Rhoddwyd gorau i ddefnyddio'r daenlen ar gyfer mynd ar drywydd ymatebwyr ym mis Mai oherwydd yr amser roedd ei angen i gwblhau'r daenlen.
- 4.32 Ym mis Rhagfyr 2022, diweddarwyd y weithdrefn ar gyfer mynd ar drywydd ymatebwyr yn seiliedig ar adborth gan gyfwelwyr y byddai cael yr hyblygrwydd i ddewis y dull gorau o gysylltu â phob ymatebydd yn eu galluogi i fynd ar ei drywydd yn fwy effeithiol. Er enghraifft, gall un alwad ffôn fod yn fwy effeithlon nag anfon sawl neges destun neu e-bost yn aml. Roedd y weithdrefn newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfwelwyr ddefnyddio'r tri dull (neges destun, neges e-bost a galwad ffôn) ond gallai'r cyfwelydd benderfynu ym mha drefn i ddefnyddio'r dulliau. Roedd y gyfradd gadael cyn gorffen yn 15.7% ar ôl rhoi'r newid ar waith ganol mis Rhagfyr, o gymharu â 15.3% pan ddefnyddiwyd y weithdrefn wreiddiol rhwng mis Ebrill a chanol mis Rhagfyr. Cynhaliwyd dadansoddiad sgwâr chi i ymchwilio i b'un a welwyd newid yn y gyfradd gadael cyn gorffen cyn ac ar ôl newid y weithdrefn ar gyfer mynd ar drywydd ymatebwyr. Dangosodd y dadansoddiad hwn nad oedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol (gwerth-p = 0.57) rhwng cyflawni cyfweiliad dros y ffôn ac arolwg ar-lein llawn neu rannol, a ph'un a oedd hyn cyn neu ar ôl rhoi'r weithdrefn newydd ar gyfer mynd ar drywydd ymatebwyr ar waith. Fodd bynnag, ni phrofwyd y newid i'r weithdrefn yn ffurfiol gyda sampl holltedig ac nid oedd data hanesyddol ar gael er mwyn cymharu â blynyddoedd blaenorol, felly ni allai'r dadansoddiad ystyried amrywiadau tymhorol posibl mewn cyfraddau cwblhau. At hynny, mae adborth gan y cyfwelwyr yn awgrymu nad oedd y gweithdrefnau ar gyfer mynd ar drywydd ymatebwyr cyn ac ar ôl y newid ym mis Rhagfyr 2022 yn cael eu dilyn yn fanwl gywir bob amser o ran y dull cysylltu nac amser y cysylltiad.

Canlyniadau samplau

- 4.33 Caiff y cyfraddau ymateb y cyfeirir atynt drwyddi draw eu cyfrifo fel a ganlyn:
Cyfradd ymateb = cyfweliadau a gyflawnwyd / (cyfanswm y cyfeiriadau – achosion anghymwys)
oni nodir fod y gyfradd ymateb ar gyfer y sampl a ddyrannwyd.
- 4.34 Mae'r mynegai yn darparu ffracsiwn y cyfeiriadau cymwys a arweiniodd at gyfweliad llwyddiannus.
- 4.35 Cyfeiriadau anghymwys yw cyfeiriadau na fyddent yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae hyn ond yn cynnwys cyfeiriadau nad oeddent wedi'u hadeiladu eto/a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu, cyfeiriadau a oedd wedi'u dymchwel/yn segur, cyfeiriadau a oedd yn wag, cyfeiriadau nad oeddent yn rhai preswyl neu nad oeddent wedi'u meddiannu fel prif breswylfa (e.e. cartrefi gwyliau), sefydliadau cymunedol, cyfeiriadau y cyfarwyddwyd y cyfwelwyr i beidio â'u samplu, a'r rhai a godiwyd gan gyfwelwyr fel rhai anhygyrch neu nad oeddent yn gallu dod o hyd iddynt. Nid yw'n cynnwys cyfeiriadau y mae cyfwelwyr wedi ceisio ymweld â nhw nifer o weithiau ond lle na fu cyswllt, oni bai bod tystiolaeth glir fod y cyfeiriad yn wag neu nad yw wedi'i feddiannu fel prif breswylfa (e.e. drwy gadarnhau hyn gyda chymdogion). Roedd 10.6% o gyfeiriadau yn anghymwys yn gyffredinol.
- 4.36 Mae cyfeiriadau â chymhwysedd anhysbys wedi cael eu cofnodi fel rhai diffyg cyswllt lle dyrannwyd cyfeiriadau ond ni cheisiwyd cyflawni'r arolwg, a lle nad oedd yn hysbys a oedd y cyfeiriad yn un preswyl neu a oedd preswylwyr cymwys oherwydd diffyg cyswllt. Lle gwrthodwyd rhoi gwybodaeth am b'un a oedd y cyfeiriad yn cynnwys tai preswyl neu breswylwyr cymwys, cofnodwyd y rhain fel gwrthodiadau.
- 4.37 Arweiniodd cyfanswm o 34.2% o'r sampl a ddyrannwyd (38.2% o'r sampl gymwys) at gyfweliadau ffôn llawn (Tabl 4.4). Y canlyniad amlaf oedd penderfyniad i wrthod cael cyfweliad, gan gynnwys torri apwyntiadau, a oedd yn cyfrif am 34.3% o'r sampl a ddyrannwyd (38.4% o'r sampl gymwys). Roedd diffyg cyswllt yn cyfrif am tua 20.9% o'r sampl a ddyrannwyd (23.4% o'r sampl gymwys). Ym mis Medi 2022, roedd mwy o gyfeiriadau anghymwys am fod 119 o gyfeiriadau ychwanegol wedi cael eu cynnwys yn y sampl ar ddamwain. Cafodd y mwyafrif o'r achosion hyn eu codio fel 'wedi cyfarwyddo i beidio â samplu yn y cyfeiriad'.

Tabl 4.4: Canlyniadau'r sampl i'r holiadur dros y ffôn ar lefel genedlaethol

Disgrifiad o'r cod canlyniad	Cyfanswm y Cyfeiriadau	Canran (%) y sampl a ddyrannwyd	Canran (%) y sampl gymwys
Cyfweliad llawn	11,116	34.2	38.2
Cyfweliad rhannol	24	0.1	0.1
Dim cyswllt ag unrhyw un yn y cyfeiriad	6,121	18.8	21.0
Gwnaed cyswllt yn y cyfeiriad, ond nid ag unrhyw aelod o'r annedd/cartref a samplwyd	177	0.5	0.6
Gwnaed cyswllt yn yr annedd/cartref a samplwyd, ond nid ag unrhyw breswlydd cyfrifol	87	0.3	0.3
Gwnaed cyswllt ag unigolyn, ond nid yr unigolyn a samplwyd	280	0.9	1.0
Gwrthod i'r swyddfa cyn i'r cyfwelydd gysylltu	262	0.8	0.9
Gwrthod gwybodaeth Uned Samplu - gwrthodwyd rhoi gwybodaeth am nifer yr anheddau/cartrefi yn y cyfeiriad	2	0.0	0.0
Gwrthod gwybodaeth Uned Samplu - gwrthodwyd rhoi gwybodaeth am bobl yn y cartref	32	0.1	0.1
Gwrthod i'r cyfwelydd cyn i'r cyfweliad ddechrau - gan yr ymatebydd	6,997	21.5	24.0
Gwrthod i'r cyfwelydd cyn i'r cyfweliad ddechrau - gan y dirprwy	694	2.1	2.4
Gwrthod gwybodaeth Uned Samplu - gwrthodwyd mynediad i'r safle	4	0.0	0.0
Gwrthod i'r cyfwelydd yn ystod y cyfweliad	55	0.2	0.2
Torri apwyntiad, dim ailgysylltiad	1,553	4.8	5.3
Yn sâl gartref yn ystod cyfnod yr arolwg - Hysbyswyd y Brif Swyddfa	4	0.0	0.0
Yn sâl gartref yn ystod cyfnod yr arolwg - Hysbyswyd y cyfwelydd	382	1.2	1.3
I ffwrdd/yn yr ysbyty drwy gydol cyfnod yr arolwg - Hysbyswyd y Brif Swyddfa	3	0.0	0.0
I ffwrdd/yn yr ysbyty drwy gydol cyfnod yr arolwg - Hysbyswyd y cyfwelydd	238	0.7	0.8
Analluog/anghymwys yn gorfforol neu'n feddyliol - Hysbyswyd y Brif Swyddfa	10	0.0	0.0
Analluog/anghymwys yn gorfforol neu'n feddyliol - Hysbyswyd y cyfwelydd	449	1.4	1.5
Terfynwyd y cyfweliad oherwydd anawsterau iaith	35	0.1	0.1
Terfynwyd y cyfweliad oherwydd anawsterau deall	11	0.0	0.0
Terfynwyd y cyfweliad oherwydd anawsterau eraill	28	0.1	0.1
Cyfweliad coll	11	0.0	0.0
Math arall o ddiffyg ymateb	387	1.2	1.3
Cyfweliad llawn wedi'i gynnal ond ymatebydd wedi gofyn am i'r data gael eu dileu	3	0.0	0.0
Dyrannwyd ond heb geisio cyflawni	72	0.2	0.2
Anhygyrch	25	0.1	
Methu dod o hyd i'r cyfeiriad	62	0.2	

Gwrthodwyd rhoi gwybod a yw'r cyfeiriad yn cynnwys tai preswyl	1	0.0	0.0
Ni wyddys a yw'r cyfeiriad yn un preswyl oherwydd diffyg cyswllt	24	0.1	0.1
Gwrthodwyd rhoi gwybod a oedd unrhyw breswylwyr cymwys	1	0.0	0.0
Ni wyddys a oes unrhyw breswylwyr cymwys oherwydd diffyg cyswllt	37	0.1	0.1
Annedd heb ei hadeiladu eto/yn cael ei hadeiladu	53	0.2	
Annedd wedi'i dymchwel/yn segur	96	0.3	
Gwag	1,633	5.0	
Cyfeiriad nad yw'n breswyl	669	2.1	
Cyfeiriad wedi'i feddiannu, ond heb gartref preswyl	646	2.0	
Sefydliad Cymunedol	158	0.5	
Wedi cyfarwyddo i beidio â samplu yn y cyfeiriad	108	0.3	
Cyfanswm	32,550	100.0	100.0

4.38 Mae Tabl 4.5 yn nodi'r cyfraddau ymateb, gwrthod, diffyg cyswllt ac anghymwys ar gyfer y sampl a ddyrannwyd fesul ALI. Ar gyfer cyfraddau ymateb y sampl gymwys, gweler Tabl 4.7.

Tabl 4.5: Cyfraddau canlyniad y sampl a ddyrannwyd ar gyfer cyfweiliadau dros y ffôn ar lefel awdurdod lleol

Awdurdod Lleol	Cyfradd ymateb (%)	Cyfradd gwrthod (%)	Cyfradd diffyg cyswilt (%)	Cyfradd anghymwysedd (%)
Blaenau Gwent	26.6	39.1	22.5	11.8
Pen-y-bont ar Ogwr	35.3	32.8	23.7	8.2
Caerffili	36.0	38.0	19.0	7.0
Caerdydd	33.8	36.0	20.5	9.6
Sir Gaerfyrddin	41.3	29.2	18.4	11.2
Ceredigion	28.1	26.0	30.1	15.9
Conwy	34.5	35.4	20.0	10.2
Sir Ddinbych	39.5	33.1	20.2	7.2
Sir y Fflint	36.4	45.3	11.0	7.3
Gwynedd	29.8	30.8	16.2	23.2
Ynys Môn	33.5	32.1	11.2	23.2
Merthyr Tudful	32.8	37.8	22.2	7.2
Sir Fynwy	37.3	35.6	19.3	7.8
Castell-nedd Port Talbot	35.9	34.6	20.1	9.4
Casnewydd	37.1	36.3	19.0	7.5
Sir Benfro	38.0	31.7	12.8	17.5
Powys	29.9	25.5	34.3	10.3
Rhondda Cynon Taf	34.3	39.0	19.0	7.7
Abertawe	34.0	34.7	19.8	11.5
Torfaen	40.1	35.0	19.9	5.0
Bro Morgannwg	34.6	35.8	22.6	7.0
Wrecsam	37.0	42.6	13.4	6.9
Cyfanswm (Cenedlaethol)	34.2	34.3	20.9	10.6

Cyfweiliadau dros y ffôn a gynhaliwyd

4.39 Cynhaliwyd cyfanswm o 11,140 o gyfweiliadau dros y ffôn yn 2022-23. Rhoddir dadansoddiad o'r cyfweiliadau rhwng pob chwarter yn 2022-23 yn Nhabl 4.6.

Tabl 4.6: Cyfweiliadau dros y ffôn a gynhaliwyd fesul chwarter

Chwarter	Dyddiadau cyfweild	Cyfweiliadau a gynhaliwyd	Cyfweiliadau cronol a gynhaliwyd
1	Ebrill '22 - Mehefin '22	2,732	2,732
2	Gorffennaf '22 - Medi '22	2,838	5,570
3	Hydref '22 - Rhagfyr '22	2,842	8,412
4	Ionawr '23 - Mawrth '23	2,728	11,140
CYFANSWM		11,140	11,140

- 4.40 Mae Tabl 4.7 yn nodi'r gyfradd ymateb a gyflawnwyd, ar gyfer cyfeiriadau cymwys, ar gyfer pob ALI. Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio o 30.1% (Blaenau Gwent) i 46.4% (Sir Gaerfyrddin). Roedd nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd yn uwch na'r targed mewn dau ALI, sef Gwynedd a Chastell-nedd Port Talbot. Ni chyflawnwyd y targedau ar gyfer yr 20 ALI arall.
- 4.41 Cafwyd cyfrannau mawr o gyfeiriadau anghymwys yng Ngwynedd ac Ynys Môn (y ddau yn 23.2%), Sir Benfro (17.5%) a Cheredigion (15.9%). Cofnodwyd llai o amrywiadau mewn ardaloedd eraill ac yn Nhorfaen y cofnodwyd y gyfradd anghymwys isaf (5.0%).

Tabl 4.7: Cyfradd ymateb a gyflawnwyd ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn â chyfeiriadau cymwys yn ôl awdurdod lleol (yn nhrefn y gyfradd ymateb)

Awdurdod Lleol	Cyfanswm y cyfeiriadau	Targed cyfweliadau	Cyfweliadau a gwblhawyd	Cyfeiriadau anghymwys	Cyfradd ymateb (%)
Sir Gaerfyrddin	1,389	660	573	155	46.4
Sir Benfro	1,077	464	409	189	46.1
Ynys Môn	1,097	382	368	254	43.7
Sir Ddinbych	807	347	319	58	42.6
Torfaen	828	347	332	41	42.2
Sir Fynwy	1,033	405	385	81	40.4
Casnewydd	1,304	521	484	98	40.1
Wrecsam	1,072	440	397	74	39.8
Castell-nedd Port Talbot	1,536	543	551	145	39.6
Sir y Fflint	1,284	506	467	94	39.2
Gwynedd	1,561	441	465	362	38.8
Caerffili	1,525	576	549	107	38.7
Pen-y-bont ar Ogwr	1,232	474	435	101	38.5
Abertawe	2,202	850	749	253	38.4
Conwy	1,100	400	379	112	38.4
Caerdydd	3,103	1,110	1,050	298	37.4
Bro Morgannwg	1,219	439	422	85	37.2
Rhondda Cynon Taf	2,148	782	737	166	37.2
Merthyr Tudful	972	347	319	70	35.4
Ceredigion	1,158	363	325	184	33.4
Powys	3,681	1,240	1,100	379	33.3
Blaenau Gwent	1,222	363	325	144	30.1
Cyfanswm (Cenedlaethol)	32,550	12,000	11,140	3,450	38.3

Camau i unioni'r ymateb isel

4.42 Gwnaeth y SYG fonitro hynt perfformiad yr ymateb i'r arolwg drwy gydol y cyfnod gwaith maes. Fodd bynnag, cafwyd anawsterau yn ystod 2022-23 a arweiniodd at fethu â chyflawni'r targed o ran ymateb, sef 12,000 o gyfweliadau. Roedd y rhain yn cynnwys anawsterau recriwtio a throsiant, gwyliau banc ychwanegol a streiciau'r Post Brenhinol. Cymerwyd camau ym mis Hydref 2022, gan gynnwys monitro ardaloedd a oedd yn perfformio'n wael yn agosach, cynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd gyda Rheolwr Rhanbarthol Cymru, gwella'r broses recriwtio a chynnal adolygiad deall ymddygiad o'r deunyddiau a'r dull gweithredu wrth garreg y drws, yn ogystal â recriwtio parhaus. Dadansoddwyd cyfwelwyr bob chwarter hefyd er mwyn adolygu perfformiad a chynorthwyo trafodaethau Rheolwyr Cyfwelwyr mewn perthynas â pherfformiad. Ym mis Rhagfyr 2022, cynhaliwyd arolwg gyda chyfwelwyr y nodwyd eu bod yn perfformio'n dda er mwyn deall eu technegau yn well. Rhannwyd y wybodaeth hon â'r holl gyfwelwyr. Yn anffodus, er gwaethaf y camau ychwanegol a gymerwyd, oherwydd bod llai o oriau cyfweld o ganlyniad i anawsterau recriwtio a throsiant, dim ond 11,140 o gyfweliadau a gynhaliwyd yn 2022-23.

Arolygon ar-lein a gyflawnwyd

4.43 Y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg ar-lein oedd 32.4%, gyda 9,427 o ymatebwyr yn cwblhau'r holiadur ar-lein. O blith y rhai a gwblhaodd yr holiadur dros y ffôn, aeth 84.6% ymlaen i gwblhau'r holiadur ar-lein. Cafodd y data ar-lein eu paru â'r data ffôn gan ddefnyddio rhif cyfresol. Gwiriwyd yr enw a'r dyddiad geni er mwyn sicrhau mai'r person a ddewiswyd ar gyfer y cyfweliad dros y ffôn oedd yr un person a gwblhaodd yr arolwg ar-lein. Mewn 79 o achosion, ni ellid paru'r data ar-lein â'r data ffôn; ar gyfer yr achosion hyn, ni chafodd y data ar-lein eu cynnwys. Mae Tabl 4.8 yn dangos nifer yr arolygon ar-lein llawn a rhannol fesul ALI, yn ogystal â nifer yr ymatebwyr a fewngofnododd ond na wnaethant ddechrau'r arolwg.

Tabl 4.8 Nifer yr arolygon ar-lein llawn a rhannol fesul awdurdod lleol

Awdurdod Lleol	Arolygon ar-lein llawn	Arolygon ar-lein rhannol	Wedi mewngofnodi ond heb ddechrau
Blaenau Gwent	273	3	5
Pen-y-bont ar Ogwr	362	5	9
Caerffili	470	5	7
Caerdydd	881	16	14
Sir Gaerfyrddin	472	6	5
Ceredigion	280	7	4
Conwy	307	2	6
Sir Ddinbych	261	3	4
Sir y Fflint	386	2	10
Gwynedd	398	8	4
Ynys Môn	301	4	7
Merthyr Tudful	258	6	4
Sir Fynwy	345	5	2
Castell-nedd Port Talbot	437	10	12
Casnewydd	417	8	3
Sir Benfro	334	5	7
Powys	958	15	11
Rhondda Cynon Taf	564	12	3
Abertawe	634	10	8
Torfaen	283	5	3
Bro Morgannwg	340	3	9
Wrecsam	322	4	13
Cyfanswm (Cenedlaethol)	9,283	144	150

4.44 Ar gyfer ymatebwyr nad oedd ganddynt fynediad at y rhyngrwyd neu rai oedd â diffyg sgiliau rhyngrwyd, roedd opsiwn i gwblhau'r adran ar-lein dros y ffôn gyda'r cyfwelydd. Digwyddodd hyn yn 13.2% o'r holiaduron ar-lein a gwblhawyd.

4.45 Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau'r adran ar-lein o fewn 3 diwrnod. Mae Tabl 4.9 yn dangos nifer y diwrnodau rhwng cwblhau'r cyfweliad dros y ffôn a chwblhau'r arolwg ar-lein ar gyfer ymatebwyr â gwybodaeth stamp dyddiad gywir.

Tabl 4.9 Nifer y diwrnodau rhwng cwblhau'r cyfweiliad dros y ffôn a'r arolwg ar-lein

Diwrnodau	Canran (%)	Canran gronol (%)
0	57.5	57.5
1	11.1	68.5
2	5.5	74.0
3	4.0	78.0
4	3.0	81.0
5	2.5	83.5
6+	16.5	100.0

Noder: Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

Defnyddio'r porth ar-lein yn Gymraeg

4.46 Gan nad oedd baner ar gyfer iaith wedi'i chynnwys yn yr arolwg ar-lein, nid oes modd nodi nifer yr ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn Gymraeg. Nodwyd ffynhonnell ddata arall yn seiliedig ar gyfeiriadau IP a thudalen y porth ar-lein, ond mae sawl cafeat yn gysylltiedig â'r data hyn:

- Mae'r data yn seiliedig ar dudalen y porth ar-lein Os wnaeth rhywun agor tudalen y porth yn Gymraeg, nid yw'n golygu eu bod wedi parhau i gwblhau'r arolwg yn Gymraeg.
- Nid oes modd pennu a yw'r ymweliadau â'r dudalen yn rhai unigryw neu'n rhai ychwanegol, a all arwain at orgyfrif oherwydd byddai ymweliadau niferus â'r dudalen gan yr un ymatebydd yn cael eu cyfrif ar wahân.
- Gall cyfeiriadau IP newid gyda dyfeisiau gwahanol ac yn ôl yr amser o'r dydd. Os defnyddiodd ymatebydd ddyfeisiau gwahanol neu os aeth yn ôl i dudalen y porth rywbyrd arall, gall hyn arwain at ddyblygu. Mae rhai cyfnewidiadau lleol yn defnyddio'r un cyfeiriad IP, felly gall mwy nag un person gael yr un cyfeiriad IP.
- Dim ond data rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 y gellid cael gafael arnynt.

Yn seiliedig ar y data, a'r cafeatau uchod, amcangyfrifir bod tua 500 o gyfeiriadau IP wedi cael mynediad at dudalen Gymraeg y porth ar-lein rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023.

5. Prosesu ac allbynnau data

- 5.1 Mae'r bennod hon yn cwmpasu'r agweddau ar yr arolwg sy'n ymwneud â phrosesu data a chyflawni. Mae hyn yn cynnwys y prosesau codio a golygu data, llunio newidynnau deilliedig, y broses gwirio data a manylion yr allbynnau a roddwyd i Lywodraeth Cymru.

Troi achosion cyfweiliadau yn set ddata

- 5.2 Pan fydd cyfwelwyr yn cwblhau cyfweiliad dros y ffôn, trosglwyddir yr achos o bell drwy gysylltiad diogel â Swyddfa Maes y SYG. Yna, caiff yr achos hwn ei dderbyn gan y System Rheoli Gwrthrychau sy'n coladu achosion unigol yn ffeil data Blaise. Yna caiff ffeiliau data Blaise (bdb) eu troi o fformat Blaise yn set ddata SPSS ynghyd â ffeil .sps meta ategol drwy becyn VB6 y SYG, a ddyluniwyd yn fewnol, a elwir yn 'DataDeliveryExpress'.
- 5.3 Ar gyfer casglu'r data ar-lein, cafodd yr holiadur ei letya gan wasanaeth lletya mewnol y SYG ac mae'n defnyddio adnodd casglu Blaise 5. Mae'r drefn yn defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl Google Cloud Platform (GCP) sydd â gwasanaeth cronfa ddata perthynol a reolir yn llawn ar gyfer cronfeydd data Gweinydd MySQL. Caiff fersiwn wrth gefn o'r cronfeydd data hyn ei chreu ddwywaith y dydd fel bod modd eu hadfer yn gyflym pe bai angen. Cloud Armour yw'r adnodd a ddefnyddir i ganiatáu neu atal traffig i borth CAWI Blaise 5 neu oddi wrtho yn seiliedig ar set o reolau wal dân, fel gosod cyfyngiadau ar gyfeiriadau IP o'r tu allan i'r DU a chyfyngu cyfraddau traffig rhag ymosodiadau atal gwasanaeth gwasgaredig (DDoS). Mae rheolwr ein gweinydd Blaise o fewn cwmwl preifat rhithwir (VPC). Caiff traffig sy'n symud o'r tu allan i mewn i ystad y GCP ei reoli gan CATD (Saernïaeth Cwmwl a Dylunio Technegol) o fewn y SYG. Mae CATD yn galluogi'r defnydd o Google Cloud a gwasanaethau cysylltiedig o fewn y SYG drwy weithio mewn partneriaeth â thimau datblygu a'u cefnogi gyda chynghor arbenigol ac arweiniad ar arferion gorau. Mae'r tîm wedi gweithio gyda phrosiectau o bob maint, gan gynnwys prosiectau mawr fel Casgliadau'r Cyfrifiad.
- 5.4 Bydd yr ymatebydd yn cael dolen URL er mwyn cael ymateb at yr holiadur ar-lein, gan ddefnyddio cod mynediad unigryw â 12 digid. Wrth i ymatebwyr gwblhau'r arolwg, caiff eu data eu storio mewn cronfa ddata Blaise 5 (.bdbx), a gaiff ei lawrlwytho ar system y SYG yn ddyddiol. Yna caiff y ffeiliau bdbx eu troi o fformat

Blaise yn set ddata SPSS ynghyd â ffeil feta .sps ategol drwy becyn VB6 y SYG, a ddyluniwyd yn fewnol, a elwir yn 'DataDeliveryExpress'.

- 5.5 Caiff setiau data SPSS newydd ar gyfer data'r cyfweiliad dros y ffôn a data'r arolwg ar-lein eu cynhyrchu'n ddyddiol a'u cyflwyno i Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol Cymru'r SYG.

Codio a golygu data

- 5.6 Lle y bo'n berthnasol, ymgorfforwyd gwiriadau rhesymeg ac ysgogiadau i gyfwelwyr yn y sgript er mwyn sicrhau bod yr atebion a roddwyd yn gyson ac yn synhwyrol. Yn ogystal â'r gwiriadau hyn a ymgorfforwyd yn yr holiadur, cynhaliwyd nifer o wiriadau (sawl gwaith yr wythnos fel arfer) gan Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol Cymru'r SYG ar setiau data a dderbyniwyd er mwyn tynnu sylw at unrhyw anghysondebau posibl. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod cyfwelwyr wedi dewis yr unigolyn cywir yn y cyfeiriad a samplwyd i'w gyfweld, a bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn yn seiliedig ar lwybro.
- 5.7 Cynhaliwyd gwaith golygu ôl-waith maes ar y data gan Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol Cymru'r SYG hefyd er mwyn cyfrif am unrhyw anghysondebau mewn ymatebion nas cwmpaswyd gan y gwiriadau a oedd yn rhan o'r holiadur. Er enghraifft, roedd y cwestiwn a ofynnodd i ymatebwyr ddewis y grŵp ethnig roeddent yn perthyn iddo yn cynnwys sawl cod 'Arall (nodwch)', wedi'u rhannu yn ôl grwpiau ethnig gwahanol (e.e. 'Unrhyw gefndir Asiaidd arall'). Os oedd yr ymateb gair am air a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod yr ymatebydd yn perthyn i gategori 'Arall' gwahanol, cafodd ei ailgodio yn unol â hynny. Roedd gwiriadau data hefyd yn cynnwys edrych ar nodiadau roedd cyfwelwyr wedi'u hychwanegu at yr holiadur yn tynnu sylw at a/neu'n egluro unrhyw ymatebion anarferol.

Newidynnau deilliedig

- 5.8 Rhoddwyd rhestr o newidynnau deilliedig angenrheidiol i'r SYG gan Lywodraeth Cymru. Newidynnau a luniwyd o ddata eraill ydynt, a oedd naill ai'n cael eu casglu yn ystod y cyfweiliad neu eu ceisio o ffynonellau eraill (h.y. data daearyddol), oedd y rhain. Mae'r rhai a gynhyrchwyd o ddata a gasglwyd drwy'r cyfweiliad naill ai'n myfyrio ar newidyn gwreiddiol o'r holiadur ond lle mae ymatebion wedi'u grwpio i lai o gategoriâu (e.e. grwpiau oedran) neu'n myfyrio ar nifer o newidynnau'r holiadur gan ddangos bod gan ymatebydd nodwedd benodol (e.e. newidynnau deilliedig sy'n gysylltiedig ag iechyd) neu'n dangos ymddygiadau penodol (e.e. newidynnau

deilliedig sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gweithgarwch). Ceir y rhestr lawn o newidynnau deilliedig yn Atodiad M.

Allbynnau data

- 5.9 Cyflwynwyd set ddata gynnar heb ei fformatio i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022. Roedd y ffeil yn cynnwys data crai y 250 cyfweliad cyntaf a gynhaliwyd er mwyn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau ansawdd llwybro'r holiadur.
- 5.10 Rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylebau penodol ar gyfer y setiau data yr oedd eu hangen i'r SYG. Roedd y rhain yn nodi'r fformat a'r labelu angenrheidiol ar gyfer pob un o newidynnau'r holiadur a phob newidyn deilliedig a oedd wedi'i gynnwys ym mhob set ddata. Lluniodd y SYG newidynnau pwysoli ar gyfer y ffeiliau ar lefel unigolyn a chartref. Ceir manylion am y broses bwysoli a'r newidynnau pwysoli ar y setiau data yn adran 6.
- 5.11 Yn seiliedig ar y fanyleb, cyflwynodd y SYG y ffeiliau data SPSS canlynol i Lywodraeth Cymru:
- Ffeil cartref 'Pob person', yn seiliedig ar ymatebion i'r grid enwadur a gwybodaeth ddemograffig sylfaenol am y cartref cyfan.
 - Ffeil lefel ymatebydd yn seiliedig ar ymatebion i'r holiadur ac yn cynnwys data cyfweliadau ar gyfer yr holl ymatebwyr.
 - Ffeil sampl ddienw, gyda chanlyniadau gwaith maes (e.e. cyfwelwyd, gwrthodwyd) a data geo-ddemograffig ar gyfer pob cyfeiriad.
 - Ffeil nad oedd yn ddienw, gyda data daearyddol ar gyfer pob cartref a ymatebodd.
 - Ffeil ailgysylltu, gyda manylion cyfeiriadau pob ymatebydd a gytunodd y gellid ailgysylltu ag ef.
- 5.12 Cyflwynwyd y ffeil ymatebwyr i Lywodraeth Cymru fesul tipyn drwy'r flwyddyn er mwyn gallu ei gwirio a pharatoi i'w chymeradwyo'n derfynol ar gyfer y flwyddyn. Yn gyntaf, cyflwynwyd ffeil ddata interim a oedd yn cynnwys y pedwar mis cyntaf o ddata'r arolwg, ac yna eto ar ôl chwe mis. Yn olaf, cymeradwywyd y data blwyddyn lawn 12 mis ym mis Mehefin 2023. Yna cafodd y data hyn eu dadansoddi a chyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Gorffennaf 2023.^(r)¹³ Aeth Tîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol Cymru'r SYG ati i sicrhau ansawdd pob iteriad o'r data yn

¹³ 26 Ionawr 2024: diwygio sylwadau i ddangos bod data bellach wedi'u dadansoddi a bod canlyniadau wedi'u cyhoeddi

gyntaf, ac yna cynhaliwyd gwiriadau pellach ar gynnwys a fformat y setiau data gan Lywodraeth Cymru cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Argaeledd data

- 5.13 Er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymuned ymchwil ehangach weld a defnyddio data'r arolwg i'w dadansoddi ymhellach, caiff set ddata ar lefel cyfranogwr a chartref y tynnwyd manylion personol yn briodol ohoni ei lletya (r)¹⁴ yn Archif Data'r DU¹⁵ a banc data SAIL¹⁶.
- 5.14 O ganlyniad i newidiadau i'r arolwg ar ôl i'r pandemig ddechrau, mae'n bwysig ystyried sut y gall y newidiadau fod wedi effeithio ar y canlyniadau ac, mewn llawer o achosion, ni ddylid cymharu'r canlyniadau â fersiynau blaenorol o'r Arolwg Cenedlaethol. Lluniodd Llywodraeth Cymru adroddiad sy'n ystyried [sut y gall y newidiadau fod wedi effeithio ar ganlyniadau ar gyfer ffyrdd o fyw ac ymddygiadau cysylltiedig ag iechyd oedolion](#).

6. Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi

- 6.1 Mae'r dull cyffredinol a ddefnyddiwyd i gyfrifo pwysoliadau a'u cymhwyso at ddata 2022-23 yn adlewyrchu protocolau safonol a ddefnyddir i bwysoli arolygon cymdeithasol ac mae'n unol ag arferion gorau rhyngwladol cyfredol.
- 6.2 Cafodd pwysoliadau dyluniad sy'n adlewyrchu tebygolrwydd dewis (ar gyfer cartrefi ac unigolion) eu cyfrifo, cyn cael eu graddnodi i boblogaeth amcangyfrifedig Cymru yn 2021 o'r amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2018, a'u haddasu er mwyn cynrychioli'r boblogaeth breswyl¹⁷.
- 6.3 O 2021-22, gwnaed newid bach i'r fethodoleg pwysoli er mwyn cyfrif am achosion lle nad yw ymatebwyr wedi ymateb fel Gwryw neu Fenyw ond, yn hytrach, wedi dweud "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn ddigymell. Mae hyn yn parhau i fod yn wir ar gyfer 2022-23.

¹⁴ 26 Ionawr 2024: diwygio sylwadau i ddangos argaeledd presennol y data a ble maent yn cael eu cynnal

¹⁵ [UK Data Service](#)

¹⁶ [Home - SAIL Databank](#)

¹⁷ Mae 'poblogaeth breswyl' yn golygu pobl sy'n byw mewn cartrefi preifat ledled Cymru. Nid yw'n cynnwys pobl sy'n byw mewn llety sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, neuaddau preswyl, carchardai, gwestai a llety gwely a brecwast, a chanolfannau'r fyddin). Ni chaiff pobl mewn llety sefydliadol eu cynnwys mewn arolygon cymdeithasol fel arfer.

- 6.4 Mae'r strategaeth bwysoli sylfaenol yn gyson â'r dulliau a ddefnyddiwyd i bwysoli'r Arolygon Cenedlaethol blaenorol o 2016-17 tan 2020-21, y prawf maes ar raddfa fawr yn 2015¹⁸ ac Arolwg Iechyd Cymru gynt.
- 6.5 Llunnir pob pwysoliad ar ddau gam:
1. Llunio pwysoliad dyluniad (i wneud iawn am wahaniaethau wrth samplu tebygolrwydd).
 2. Graddnodi pwysoliad (i wneud iawn am wahaniaethau rhwng proffil y sampl a phroffil hysbys y boblogaeth).
- 6.6 Gan y gall diffyg ymateb ar lefel cartref ac unigolyn achosi tuedd yn y canlyniadau, mae graddnodi pwysoliadau hefyd yn ffordd o addasu ar gyfer y tebygolrwydd o beidio â chynnal cyfweiliad. Dyma'r un dull gweithredu a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Pwysoliadau dyluniad

- 6.7 Y cam cyntaf yn y broses bwysoli yw cyfrifo pwysoliad dyluniad ar gyfer y cartref ac unigolion o fewn cartrefi, sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd o gael eu dewis.
- 6.8 Cyfrifir y pwysoliad fel a ganlyn:

$$\text{Pwysoliad dyluniad cartref} = \frac{N_h}{n_h}$$

Ile mai n_h yw maint y sampl (nifer y cyfeiriadau) a ddyrannwyd o fewn stratwm h a lle mai N_h yw maint y boblogaeth (nifer y cyfeiriadau ar y PAF) o fewn stratwm h

- 6.9 Mae'r pwysoliad dyluniad unigol yn addasu ar gyfer dewis un oedolyn ar hap o fewn cartrefi a samplwyd a oedd yn cynnwys mwy nag un oedolyn 16 oed neu drosodd. Cyfrifir y pwysoliad fel a ganlyn:

$$\text{Pwysoliad dyluniad unigol} = \text{Pwysoliad dyluniad cartref} \times m_i$$

Ile mai m_i yw nifer y bobl 16 oed a throsodd mewn cartref i .

- 6.10 Er mwyn osgoi amrywiad anghymesur rhwng cyfeiriadau yn y pwysoliadau, cymhwysir cap o 5 at y pwysoliad.

¹⁸ Hanson T., Sullivan S., *Prawf Maes Arolwg Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Technegol*, Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 19/2016 [Arolwg Cenedlaethol Cymru: gwaith datblygu | LLYW.CYMRU](#)

Graddnodi pwysoliadau

- 6.11 Yn olaf, caiff y pwysoliadau dyluniad addasedig ar lefel cartref ac unigolyn eu graddnodi yn unol â'r tablau poblogaeth perthnasol. Fel arfer, mae'r adnoddau poblogaeth a ddefnyddir wrth raddnodi yn cyfeirio at yr un cyfnod â'r arolwg ei hun er mwyn rhoi cyfansymiau yn ôl ALI ar gyfer unigolion a chartrefi. Yr amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pwysoliadau 2022-23 yw'r amcanestyniadau o boblogaeth Cymru yn 2021 yn seiliedig ar y boblogaeth yn 2018 (addaswyd ar gyfer y boblogaeth breswyl). Mae rhywfaint o oedi mewn amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth oherwydd bod y pandemig wedi tarfu ar ffynonellau data (e.e. yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol). Wrth benderfynu ar grwpiau graddnodi priodol, roedd angen i'r rhain fod yn ddigon mawr i gyfyngu ar amrywiad yn y pwysoliadau. Ar gyfer pwysoliadau oedolyn, mae'r broses raddnodi yn ystyried oedran, rhyw ac ALI i ddechrau.
- 6.12 Defnyddir amcangyfrifon priodol o nifer y cartrefi preifat yng Nghymru i raddnodi'r pwysoliad dyluniad cartref addasedig yn unol â'r cyfansymiau poblogaeth hysbys hyn. Nid oedd cyfansymiau poblogaeth cyfansoddiad cartrefi ar gyfer 2021 wedi'u rhyddhau ar yr adeg prosesu. Cafodd cyfansymiau cyfansoddiad cartrefi 2020 eu chwyddo gan ddefnyddio ffactor graddio a ddeilliwyd o'r gwahaniaeth mewn poblogaethau oedran/rhyw rhwng 2020 a 2021.
- 6.13 Defnyddir cyfansymiau poblogaeth priodol i raddnodi'r pwysoliad dyluniad unigol addasedig er mwyn cynrychioli'r boblogaeth o oedolion 16 oed a throsodd yng Nghymru. Ymhlith y newidynnau a ystyriwyd ar gyfer grwpiau graddnodi roedd oedran, rhyw ac ALI. Nodir y grwpiau graddnodi mwyaf priodol drwy sicrhau bod y grwpiau graddnodi o faint addas (h.y. mwy na 30 o ymatebion yn y sampl).
